
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



## Crynodeb o'r Ymgynghoriad

# Adnoddau Naturiol Cymru

Y Trefniadau a Gynigir ar gyfer Sefydlu a Chyfarwyddo Corff Newydd i Reoli Adnoddau Naturiol Cymru

ISBN 978 0 7504 7740 6
WG 15613
© Hawlfraint y Goron 2012

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 'Adnoddau Naturiol Cymru – Y Trefniadau a Gynigir ar gyfer Sefydlu a Chyfarwyddo Corff Newydd i Reoli Adnoddau Naturiol Cymru'.

## 1. Cyflwyniad

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y trefniadau a gynigir ar gyfer sefydlu a chyfarwyddo corff newydd i reoli adnoddau naturiol Cymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 9 Chwefror 2012 a 2 Mai 2012 h.y. am gyfnod o 12 wythnos. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn benodol, roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn am y canlynol:

- Y cynigion cyffredinol ar gyfer sefydlu'r corff newydd.
- Cynigion ar gyfer gweithredu'r newidiadau cyfreithiol a fydd yn ofynnol i sefydlu'r corff newydd.
- Ein huchelgeisiau ar gyfer y corff newydd, ynghyd â'r ffordd yr ydym yn bwriadu gosod ei bwrpas cyffredinol o fewn cyd-destun.
- Ein trefniadau arfaethedig i ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys dulliau o sicrhau atebolrwydd a thryloywder yng ngwaith y corff newydd.
- Ein cynigion ar gyfer prif swyddogaethau a phwerau'r corff, gan gynnwys ystyried rhai elfennau yn swyddogaethau Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Draenio Mewnol.
- Ein cynigion ar gyfer statws y corff a sut y bydd yn cael ei lywodraethu, gan gynnwys trefniadau ar gyfer bwrdd gweithredol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ehangach.
- Sut yr ydym yn bwriadu datblygu materion sy'n gysylltiedig â llywodraethu trawsffiniol a'n cynigion ar gyfer y cysylltiadau â Gweinidogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y bydd y corff yn gwbl atebol i Weinidogion.

Gofynnodd y ddogfen ymgynghori am farn am 12 cwestiwn penodol sy'n cwmpasu'r materion uchod.

## 2. Trosolwg ar yr ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 308 o ymatebion i'r ymgynghoriad.  Roedd 223 o ymatebion gan gyrff a 85 o ymatebion gan unigolion preifat.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion isod.  Mae rhestr o'r cyrff a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

Mae crynodeb gweithredol o'r prif faterion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn Adran 3.  Ceir dadansoddiad manylach o'r sylwadau a gafwyd am bob un o'r 12 cwestiwn yn Adran 4.

| **Categori'r ymatebydd** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---:|
| Unigolion preifat | 85 |
| Y sector pysgodfeydd | 36 |
| Y sector coedwigaeth | 32 |
| Busnes neu ddiwydiant arall | 30 |
| Y sector mynediad, hamdden a thwristiaeth | 25 |
| Corff arall yn y sector cyhoeddus | 22 |
| Grŵp partneriaeth lleol | 19 |
| Awdurdod lleol a/neu ei gynrychiolwyr | 15 |
| Corff amgylcheddol/cadwraeth | 14 |
| Corff proffesiynol | 9 |
| Y trydydd sector/sector arall | 7 |
| Undeb Llafur | 6 |
| Corff academaidd/ymchwil | 4 |
| Gwasanaeth ymgynghori | 4 |
| **CYFANSWM** | **308** |

## 3. Crynodeb gweithredol

Roedd y dadansoddiad cyffredinol yn dangos bod mwy na 60% o’r 308 a ymatebodd i’r ymgynghoriad yn cefnogi’r cynnig cyffredinol i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd fwy integredig a sefydlu un corff drwy ddod â swyddogaethau presennol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru at ei gilydd. Roedd tua 10% o’r ymatebwyr yn gwrthwynebu’r cynnig, a’r gweddill heb fynegi barn benodol am y bwriad cyffredinol, neu’n mynegi barn a oedd bron yn gytbwys.

Ymhlith y sectorau a oedd yn gefnogol at ei gilydd i’r cynnig i sefydlu un corff yr oedd unigolion preifat, cyrff amgylcheddol/cadwraeth, awdurdodau lleol a/neu eu cynrychiolwyr, y sector pysgodfeydd, y sector mynediad a hamdden, busnesau a diwydiannau eraill, cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, cyrff academaidd/ymchwil a’r trydydd sector.

Roedd ychydig llai na hanner yr ymatebion gan y sector coedwigaeth yn gefnogol i’r cynnig gan mwyaf, a gweddill yr ymatebion yn anghefnogol neu’n niwtral. Sectorau eraill a oedd yn llai cefnogol i’r cynnig oedd cyrff proffesiynol, grwpiau partneriaeth lleol, undebau llafur a gwasanaethau ymgynghori.

Y prif themâu a gododd o’r ymgynghoriad oedd:

- Cyfeiriodd nifer o’r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig cyffredinol at amrywiaeth eang o fanteision posibl o sefydlu un corff.
- Eglurodd rhai ymatebwyr eu pryderon ynghylch sefydlu un corff. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon amgylcheddol, ystyriaethau ynghylch adnoddau a throsglwyddo, yn ogystal â materion penodol a godwyd gan y sector coedwigaeth a diwydiant.
- Roedd cefnogaeth gyffredinol i’r bwriad i weithredu fesul cam wrth greu’r corff ac i ddatblygu’r ddeddfwriaeth ymhellach gan fod ymatebwyr yn cytuno bod angen gweithredu’n effeithlon fel na fydd effaith niweidiol ar wasanaethau presennol ac i sicrhau parhad busnes.
- Cafwyd nifer o farnau gwahanol am y prif nod a’r amcanion strategol, ac roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn awgrymu newidiadau yn y prif nod neu’r amcanion strategol, neu’r ddau.
- Roedd cefnogaeth gyffredinol i’r ffordd o drafod y fframwaith cyflawni, er bod cydnabyddiaeth bod angen mwy o waith ar y canlyniadau ac amcanion.
- Y farn gyffredinol oedd bod y rhestr o swyddogaethau ar gyfer y corff newydd yn rhesymol, er bod nifer o bwyntiau manwl wedi’u cynnig.
- Cytunodd nifer o ymatebwyr â’r cynnig i drosglwyddo’r swyddogaethau ar gyfer trwyddedau morol a bywyd gwyllt ac ar gyfer iechyd planhigion i’r corff newydd.
- Roedd gwahaniaeth barn am y cynnig i drosglwyddo polisi i Lywodraeth Cymru.
- Roedd pwyslais ar y pwysigrwydd o gael sylfaen wyddonol dda i’r corff newydd. Roedd cefnogaeth i’r cynnig i Lywodraeth Cymru gydgysylltu

buddsoddi mewn ymchwil amgylcheddol, er bod nifer yn credu y dylai'r corff newydd gael hyblygrwydd i ddiffinio a chyflawni ei ymchwil ei hun.

- Roedd croeso cyffredinol i'r cynigion ar gyfer statws, llywodraethu ac atebolrwydd y corff newydd. Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y dylai'r corff gael ei sefydlu'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n annibynnol ar lywodraeth. Roedd cefnogaeth eang i dryloywder ac atebolrwydd ym mhob agwedd ar waith y corff.
- Cafwyd croeso, at ei gilydd, i'r trefniadau ar gyfer rhanddeiliaid. Pwysleisiodd ymatebwyr ei bod yn bwysig ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhagweithiol a bod llwyddiant y corff newydd yn dibynnu ar fodolaeth trefniadau cadarn ar gyfer rhanddeiliaid. Nododd nifer o ymatebwyr fod rhaid datblygu unrhyw drefniadau ar y cyd â rhanddeiliaid.
- Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i'r cynigion sy'n ymwneud â'r trefniadau rheoleiddio, gan gynnwys gwahanu gwaith rheoleiddio oddi wrth waith gweithredol mewn sefyllfaoedd lle mae'r corff yn rheoleiddio ei weithgareddau ei hun.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn ategu'r angen am symleiddio systemau rheoleiddio, er bod pryderon gan rai na ddylid caniatáu i hyn effeithio ar waith i ddiogelu'r amgylchedd. Roedd cefnogaeth eang i'r amcan o wneud penderfyniadau mewn ffordd dryloyw a chyhoeddi dogfennau penderfyniad.

Mae sylwadau manwl am bob un o'r 12 cwestiwn ymgynghori yn yr adran nesaf. Nodir y themâu cyffredin a godwyd o dan bob cwestiwn a rhoddir rhestr wedyn o bwyntiau allweddol eraill a oedd wedi'u gwneud. Lle mae pwyntiau tebyg wedi'u gwneud mewn ymateb i gwestiynau gwahanol rydym wedi ceisio trafod y pwynt o dan y cwestiwn mwyaf priodol er mwyn cael llai o ailadrodd.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad o ddefnydd yn y dyfodol wrth ffurfio gweledigaeth a gwerthoedd y corff newydd a'i ffyrdd o weithio. Yn benodol, bydd yr ymatebion yn cyfrannu at y gwaith sy'n mynd ymlaen ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â'r gwaith manwl o ddrafftio'r gorchmynion i sefydlu'r corff a throsglwyddo swyddogaethau iddo.

## 4. Dadansoddiad o’r ymatebion

**Cwestiwn 1: Beth yw eich barn ar ein cynnig i sicrhau trefniadau rheoli mwy integredig drwy ddod â’r tri chorff at ei gilydd a chreu un corff amgylcheddol i Gymru?**

### Trosolwg

Dangosodd y dadansoddiad cyffredinol fod mwy na 60% o’r 308 a ymatebodd i’r ymgynghoriad yn cefnogi’r cynnig cyffredinol i reoli adnoddau naturiol yn fwy integredig a sefydlu un corff drwy ddod â swyddogaethau presennol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru at ei gilydd. Roedd tua 10% o ymatebwyr yn gwrthwynebu’r cynnig, a’r gweddill heb fynegi barn benodol am y cynnig cyffredinol, neu wedi mynegi barn a oedd bron yn gytbwys.

### Themâu cyffredin

*Sefydlu un corff*

Nododd ymatebwyr amrywiaeth eang o fanteision o sefydlu un corff, gan gynnwys:

- Y cyfle i gael sefydliad sy’n cwrdd ag anghenion Cymru yn y ffordd orau a’r cyfle i hyrwyddo Cymru fel gwlad flaengar.
- Y cyfle i gael cyfarwyddyd polisi mwy manwl gan Lywodraeth Cymru.
- Y posibilrwydd o hwyluso rheoli amgylcheddol gan grwpiau cymunedol lleol.
- Cael cysylltiad mwy unedig ac integredig â rhanddeiliaid; darparu gwasanaeth mewn ffordd symlach i gwsmeriaid.
- Symleiddio trefniadau cydgysylltu; sefydliad mwy effeithlon a llai o fiwrocratiaeth.
- Lleihau’r baich rheoleiddio; darparu dull mwy cydlynol o weithredu gyda pholisïau mwy cyson.
- Y cyfle i roi mwy o ymreolaeth ar gyfer penderfynu a sicrhau mwy o arbedion.
- Gan y byddai angen cynyddol i’r tri chorff ddelio â materion cymhleth, byddai’n haws delio â’r materion anodd hyn drwy un corff.
- Mae sefydlu un corff yn gyson â ffyrdd o weithio mewn partneriaeth ac yn fwy cydweithredol.

*Pryderon ynghylch sefydlu’r corff*

Mynegwyd nifer o bryderon ynghylch creu un corff, gan gynnwys:

- Mae'r asiantaethau wedi ymsefydlu ac mae gan bob un ohonynt rôl, diwylliant ac athroniaeth neilltuol. Byddai dod â nhw at ei gilydd yn peryglu gwaith i ddiogelu'r amgylchedd.
- Nid yw'r achos busnes yn argyhoeddiadol.
- Mae'r amcangyfrif o gostau newid yn rhy isel ac mae'r arbedion yn fach.
- Nad yw'r achos busnes yn ystyried ansicrwydd ynghylch pobl a cholli cynhyrchiant.
- Nad yw'r arbedion yn ystyried colli mantais gan y 'rhiant-gyrff' (Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth).
- Bod yr arbedion yn sensitif iawn i ffactorau allanol.
- Rhaid peidio â bychanu maint a chymhlethdod y newid, gan gynnwys TG, pensiynau, newidiadau mewn diwylliant a'r amserlen ymestynnol.
- Bod amser ad-dalu'r arbedion yn rhy hir.
- Bod yr achos busnes yn unochrog.
- Nid yw'n glir sut y bydd yr arbedion ar gostau sydd wedi'u hamcangyfrif yn cael eu cofnodi, eu mesur a'u hailfuddsoddi yng ngweithrediadau'r corff i wella'r amgylchedd a gwasanaethau i bobl a busnesau.
- Bod y ddadl o blaid newid yn aneglur a bod angen mwy o fanylion.

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn cefnogi cynnig i ddod ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru at ei gilydd, ond y dylid cadw Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar wahân.  Roedd eraill o blaid cynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru.  Mae'r barnau hyn wedi'u cydgrynhoi yn yr ymateb i Gwestiwn 2.

*Dull rheoli ar lefel yr ecosystem*

Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r cynnig i fabwysiadu dull ecosystemau.  Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai'r corff fod o dan ddyletswydd statudol i gadw, adfer, gwella a rheoli'r amgylchedd naturiol. Ystyriwyd bod ffyrdd priodol o reoli tir yn agwedd bwysig ar reoli ar lefel yr ecosystem.

Teimlai eraill y dylid rhoi pwyslais ar hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau ecosystemau gan y corff ac ar ddefnydd cynaliadwy ohonynt gan fusnesau.

*Datblygu Cynaliadwy*

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i'r bwriad i wneud datblygu cynaliadwy'n rhan annatod o waith y corff, er bod rhai ymatebwyr yn gofyn am ddiffinio hyn yn gliriach.  Dylai'r diffiniad hwn fod yn gyson â'r un a fydd yn y Bil Datblygu Cynaliadwy sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y pwysigrwydd o gael y cydbwysedd cywir rhwng y galwadau am dwf economaidd a datblygu a chamau effeithiol i reoli a rheoleiddio'r amgylchedd naturiol h.y. cadw cydbwysedd rhwng tair colofn datblygu cynaliadwy.  Dywedodd un ymatebydd y dylai'r corff integreiddio'r

tair colofn yn hytrach na chadw cydbwysedd rhyngddynt, gan fod hynny'n awgrymu cyfaddawd, er mwyn cyrraedd sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill.

Roedd nifer o ymatebwyr yn ategu'r farn y byddai angen i'r corff sicrhau bod ei swyddogaethau rheoleiddio a gweithredu'n cael eu cadw ar wahân wrth gyflawni ei waith. Dywedodd nifer llai fod angen gwahanu'r swyddogaethau hyn yn fwy sylfaenol – na all y corff ddiogelu adnoddau naturiol ac elwa ohonynt hefyd.

Credai rhai ymatebwyr mai'r egwyddor drefniadol ganolog y dylai'r corff ei mabwysiadu oedd sefydlu mesurau i ddiogelu'r amgylchedd a hybu cynaliadwyedd yn hytrach na hyrwyddo datblygiadau cymdeithasol ac economaidd. Dywedodd ymatebwyr eraill fod coedwigaeth yng Nghymru'n cael ei rheoli'n gynaliadwy eisoes, ac felly bod angen i'r corff gael cylch gwaith cytbwys o'r un math ar gyfer datblygu cynaliadwy.

*Amseriad sefydlu'r corff*

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid symud ymlaen yn gynt ar ddatblygu Cymru Fyw, er mwyn amharu'n llai ar staff a rhanddeiliaid a chreu llai o ansicrwydd iddynt.

Roedd nifer mawr o ymatebwyr yn ategu'r farn yn yr ymgynghoriad fod yr amserlen arfaethedig yn ymestynnol, a theimlent y dylid caniatáu mwy o amser i baratoi er mwyn datblygu'r fframwaith cysyniadol, a allai roi cyfle i'r corff ddod yn endid newydd a chanddo ddiwylliant a chenhadaeth newydd. Dywedodd rhai y dylai'r ffurf ddilyn y swyddogaeth ac y dylid sefydlu'r corff newydd wedi i'r dull ecosystemau sefydlogi ac ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

*Enw*

Cafwyd rhai sylwadau am enw'r corff newydd. Dylai enw'r corff adlewyrchu ei ddiben ac roedd yn bosibl na fyddai'r cyhoedd yn deall 'Adnoddau Naturiol Cymru'. Dywedodd rhai ymatebwyr ei bod yn siomedig bod y corff yn cael ei alw'n 'un corff' yn awr yn hytrach nag 'un corff amgylchedd' oherwydd gallai hyn awgrymu bod rôl amgylcheddol y corff wedi'i diraddio.

*Symleiddio Trefniadau Rheoleiddio*

Cafwyd cefnogaeth eang gan fusnesau a diwydiannau i'r cynigion i symleiddio trefniadau rheoleiddio. Ym marn rhai ymatebwyr, er bod symleiddio i'w groesawu, dylid rhoi mwy o bwyslais ar wneud rheoleiddio'n fwy effeithiol. Nid yw'r pwyslais ar symleiddio'n dangos gwerthfawrogiad o gymhlethdod yr amgylchedd yng Nghymru a'r amrywiaeth eang o faterion y byddai angen i'r corff weithredu arnynt. Yn achos rhai sectorau, mae'n bosibl na fydd y broses gynllunio'n symlach gan y byddai angen ymgynghori â rhai y tu allan i Gymru. Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o wybodaeth am y ffordd o sicrhau symleiddio yn y dyfodol.

Mynegwyd y farn hefyd fod rhaid cael gwelliannau mesuradwy er mwyn sicrhau manteision.  Er enghraifft, dylid troi'r nodau'n amcanion pendant ac iddynt ganlyniadau mesuradwy.  O safbwynt y cyhoedd, caiff llwyddiant ei asesu ar sail yr enillion tymor hir a geir ym mhob agwedd ar yr amgylchedd.

Credwyd ei bod yn bwysig hefyd na fydd yr arbenigedd sydd yn y tri chorff presennol yn cael ei golli.  Dylid diogelu a chadw staff presennol.

*Trefniadau strwythurol a newid*

Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch strwythurau sefydliadol yn y dyfodol.

Rhaid i'r broses arwain at symleiddio trefniadau, nodau, cynlluniau a phrosesau sefydliadol.  Rhaid achub ar y cyfle i foderneiddio a symleiddio'r fframwaith. Dylai'r corff edrych yn gadarnhaol ar newid a pheidio â chynnal y sefyllfa sydd ohoni. Ni ddylai'r corff newydd fod yn bendrwm a byddai angen iddo gael strwythur gwastad a rhoi pwyslais ar gyngor ac arbenigedd technegol o ansawdd uchel.

Dylid rhoi pwyslais ar leoliaeth er mwyn sicrhau na fydd y corff yn troi'n fiwrocratiaeth gaeedig ac na fydd anghenion ardal neu ranbarth penodol yn cael eu hesgeuluso.  Nid oes un ateb sy'n addas i bawb.  Roedd nifer o ymatebwyr o amryw o sectorau o blaid cael rhwydwaith o dimau a swyddfeydd lleol.  Dylid hefyd gael presenoldeb ledled Cymru, a hynny'n cynnwys staff uwch.

Dylem adeiladu ar sail yr hyn sy'n gweithio'n dda. Mewn rhai ardaloedd bydd synergeddau rhwng y cyrff a fydd yn cynnig manteision pendant. Fodd bynnag, mewn meysydd fel gwaith maes mae'n llai tebygol y ceir manteision. Felly, mewn achosion o'r fath, lle mae strwythurau presennol yn gweithio'n dda, ni ddylid eu chwalu.

Bydd yn cymryd amser i ddatblygu strwythurau a phrosesau newydd. Gallai gymryd hyd at bum mlynedd i gael y canlyniad a ddymunir ac i'r corff weithio'n effeithiol.

*Data*

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at gyfleoedd i reoli data yn well.

Mae sefydlu'r corff yn rhoi cyfle i sicrhau dull systematig o gasglu a rheoli gwybodaeth amgylcheddol yng Nghymru, a threfnu iddi fod ar gael.

Dylid cefnogi ac ariannu canolfannau cofnodion lleol. Roedd cyfleoedd i gydgysylltu mwy o waith a gweithredu'n fwy cyson wrth gyflawni swyddogaethau'r tri chorff.

Rhaid i wybodaeth ddaearyddol fod yn ganolog yng ngweithrediadau'r corff newydd er mwyn gwireddu manteision y dull ecosystemau.

Bydd angen ystyried buddsoddi mewn systemau gwybodaeth y tu allan i Gymru.

*Cynllunio*

Credai rhai ymatebwyr fod diffyg gwybodaeth am gynllunio i reoli adnoddau, yn lleol ac yn genedlaethol.

Er bod croeso i'r bwriad i gael un pwynt mynediad ac un ymateb i ymgyngoriadau cynllunio roedd pryder, oherwydd maint a chymhlethdod rhai ceisiadau, y byddai'r angen i ymgynghori'n fwy eang o fewn y sefydliad yn gallu arwain at oedi annerbyniol.

Mae angen mwy o wybodaeth am y ffordd y bydd y dull o reoli adnoddau naturiol ac amgylcheddol yn y dyfodol yn rhyngweithio â nifer o bolisïau eraill Llywodraeth Cymru, fel y rhai ar y newid yn yr hinsawdd a datblygu economaidd.

*Materion eraill*

Roedd croeso i'r datganiad am gynnal perthynas weithio agos â chyrff tebyg yn Lloegr a Llywodraeth y DU. Er enghraifft, nododd rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig cynnal safonau amgylcheddol cyffredin a sicrhau bod cyngor a phenderfyniadau'n gyson. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen rhoi mwy o bwyslais ar gynnal safbwynt Prydeinig, Ewropeaidd a byd-eang, yn ogystal â safbwynt Cymreig.

Yn olaf, roedd rhywfaint o bryder ynghylch diffyg manylder yn y ddogfen ymgynghori, y termau a ddefnyddiwyd a'r anhawster a gâi'r lleygwr i ddeall y cynigion. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ddefnyddio diffiniadau clir er mwyn sicrhau mwy o eglurder a dealltwriaeth o hyn ymlaen.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Mae croeso i'r egwyddor o reoli'r sector gwledig yn well.
- Dylai'r corff fod yn annibynnol a gwrthsefyll rheolaeth wleidyddol.
- Ni ddylai sefydlu'r corff effeithio ar y ddarpariaeth o gyngor e.e. i berchenogion coetiroedd bach.
- Dylid cael cydweithio parhaus ac effeithiol â llywodraeth leol.
- Dylid dod â'r rolau rheoleiddio ac ymgynghori statudol at ei gilydd, ond nid yr elfen rheoli tir a busnes, gan fod tensiynau rhyngddynt.
- Mae angen arweiniad cryf o'r lefel uchaf i uno'r tri chorff gwahanol.
- Byddai wedi bod yn bosibl rhoi mwy o sylw i'r profiad mewn gwledydd eraill ac i brosesau ad-drefnu mawr eraill fel yr un a gafwyd wrth sefydlu Cyngor Cefn Gwlad Cymru.
- Mae perygl y bydd y corff yn sefydliad mor fawr ac annelwig fel na fydd yn gallu rhoi digon o flaenoriaeth neu adnoddau i bob rhan o'i gylch gwaith.

- Er mwyn sicrhau manteision yr integreiddio, dylai'r corff gyfrannu'n helaeth o hyd at gydgysylltu a lledaenu arferion da ym mhob agwedd sy'n ymwneud â chefn gwlad.
- Mae nifer o'r methiannau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn gysylltiedig â materion ffermio. Mae angen cysylltiadau cryf rhwng y corff newydd a buddiannau ffermio.
- Dylid gwneud asesiad cost a budd o'r holl feysydd gweithgarwch. Dylai'r corff fod ar raddfa lai, dylai fod yn fwy effeithlon a chael ei asesu'n flynyddol ar sail ei gyflawniadau.
- Ni ddylid cael unrhyw newid yn y safonau amgylcheddol sylfaenol y mae'n rhaid i gwmnïau dŵr eu cyrraedd.
- Mae angen cynnwys awdurdodau cynllunio ac awdurdodau priffyrdd er mwyn creu awdurdodau dalgylch dilys.
- Mae angen targedau priodol i hyrwyddo ecosystemau.
- Mae rheoli tir integredig yn hanfodol i gefn gwlad cynaliadwy, felly dylai amaethyddiaeth fod yn rhan o gylch gwaith y corff.
- Nid yw'n glir sut y bydd blaenoriaethau'r corff yn cael eu pennu er mwyn cyflawni'r nifer mawr o strategaethau mewn modd cydnaws.
- Nid yw'r ymgynghoriad yn cyfeirio at bolisi ynni.
- Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru o blaid y newid ond cododd gwestiynau ynghylch materion diogelu iechyd gan gynnwys rheoleiddio diwydiannau a lleihau effeithiau llygredd; atal neu gydbwyso effeithiau digwyddiadau ac argyfyngau a darparu cyngor arbenigol. Roedd yr Asiantaeth Diogelu Iechyd hefyd yn nodi bod angen parhau â dull cyson o ddarparu cyngor ar ddiogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr.
- Dylid mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg y corff mor fuan â phosibl ar ôl sefydlu'r corff cysgodol. Dylai'r corff fabwysiadu'r elfennau mwyaf arloesol ac uchelgeisiol sydd yn y cynlluniau presennol. Dyma gyfle i gyflogwr newydd mawr yn y sector cyhoeddus gyflwyno pob agwedd ar y Gymraeg i'r cyhoedd, cleientiaid a chwsmeriaid a staff.
- Priod rôl y corff yw helpu i reoli'r adnoddau naturiol, nid eu diogelu'n unig.
- Mae dyddodion mwynau yng Nghymru wedi bod yn adnodd naturiol pwysig a byddant yn parhau'n bwysig.
- Rhaid i drefniadau rheoleiddio newydd gadw cydbwysedd rhwng anghenion defnydd tir cystadleuol er mwyn ffurfio'r lleoedd lle yr ydym i gyd yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw, a'u hintegreiddio â'r amgylchedd naturiol yr ydym yn dibynnu arno.
- Mae ofnau na fyddai'r corff yn gallu dylanwadu ar sectorau eraill ac ennill eu cefnogaeth, yn enwedig os na fydd ganddo weledigaeth sydd wedi'i chyfleu'n dda.
- Mae cytundebau gwirfoddol a wneir yn lleol ar gyfer mynediad i ddibenion hamdden yn fwy effeithiol na dull rheoleiddio a gorfodi sy'n gweithredu o'r brig i lawr.
- Rhaid i'r corff gyflawni ei weithgareddau'n effeithlon ac yn effeithiol yn y dyfodol, gan roi ymrwymiad heb ei ail i weithredu'n fwy tryloyw ac yn llai biwrocrataidd.
- Dylai rheoli mwy integredig gael ei seilio ar brosesau penderfynu symlach.
- Dylai'r corff newydd sicrhau gwell canlyniadau na'r trefniadau presennol.

**Cwestiwn 2: Wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer y corff, a oes unrhyw fesurau ychwanegol y gallem eu cymryd i ymdrin â'r pryderon yr ydym wedi'u nodi yn adran 2.4 neu unrhyw bryderon eraill sydd gennych?**

## Trosolwg

Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi pryderon sydd gan randdeiliaid ar hyn o bryd a gofynnodd am farn ynghylch ffyrdd o ymdrin â'r materion hyn. Rhoddodd nifer o ymatebwyr bwyslais ar y pryderon hyn a mynegi pryderon sydd gan amrywiaeth eang o sectorau eraill. Roedd rhywfaint o orgyffwrdd â materion a godwyd o dan Gwestiwn 1.

## Themâu cyffredin

*Adnoddau*

Roedd nifer o ymatebwyr yn ategu'r angen am arbed costau a defnyddio arian cyhoeddus yn y ffordd orau a nodwyd yn yr achos busnes. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder hefyd y gallai'r broses gael ei hystyried yn ffordd o leihau costau.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod angen i lefel yr adnoddau, arbenigedd ac uchelgais yn y dyfodol fod yn gystal o leiaf â'r lefelau presennol er mwyn derbyn yr heriau o reoli'r amgylchedd yng Nghymru. Credai eraill fod angen mwy o adnoddau mewn rhai meysydd. Nododd rhai ymatebwyr y cyfeiriad yn yr ymgynghoriad at ailfuddsoddi rhai arbedion, ac awgrymu bod angen ymrwymiad clir i ailfuddsoddi'r holl arbedion mewn gweithgareddau sy'n sicrhau gwelliannau amgylcheddol.

Mynegwyd pryderon nad oes dealltwriaeth lawn o'r ddeddfwriaeth forol a swyddogaethau morol y corff newydd ac felly na fyddai adnoddau na chynrychiolaeth ddigonol i'r sector morol.

Roedd pryder y byddai diffyg mewn materion sy'n ymwneud â chydsynio a allai arwain at oedi, diffyg penderfynu neu faich ychwanegol a allai anghymell buddsoddi.

Dylai ffioedd a godir am bysgota â gwialen yng Nghymru gael eu gwario yng Nghymru a dylid cael rhyw gydnabyddiaeth ariannol oddi wrth drwyddedau a brynir yn Lloegr pan fydd y prynwr yn defnyddio'r drwydded honno i bysgota yng Nghymru.

*Y sector coedwigaeth*

Roedd yr ymgynghoriad yn cydnabod y pryderon a fynegwyd cyn hynny gan y sector coedwigaeth am ddiogelwch y cyflenwad pren yn y dyfodol, parhad perchenogaeth gyhoeddus a sgiliau coedwigaeth. Nodwyd nifer o bryderon eraill yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â choedwigaeth.

Roedd Cymdeithas Cynhyrchion Coedwig y DU yn cydnabod bod rhywfaint o sicrwydd wedi'i roi am yr effaith bosibl ar gyflenwad coed, ond bod busnesau yn y sector yn anesmwyth o hyd. Nododd Partneriaeth Fusnes Coedwig Cymru fod rhaid i Gymru dyfu pren sy'n ddigonol o ran ansawdd a maint fel y gellir hyrwyddo'r defnydd ohono yn y diwydiant adeiladu, felly rhaid cael rhaglen blannu hyfyw. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd fod rhaid i'r corff fod â gweledigaeth ar gyfer yr economi a datblygu gan fod coedwigaeth yn cynnig cyfleoedd i'r economi gynaliadwy – mae angen sylfaen economaidd gadarn. Nododd eraill nad yw'r gangen fasnachol yn gydnaws â natur y corff ac y gallai greu gwrthdaro buddiannau a bod â goblygiadau o ran dod â sgiliau a diwylliant y corff at ei gilydd. Byddai sefydlu'r corff yn gallu arwain at fwy o reoleiddio diangen a'r posibilrwydd o fygu datblygiad os na fydd y trosglwyddo'n llyfn. Pryder pellach oedd bod coedwigaeth yn dod o dan ddwy adran o lywodraeth ar hyn o bryd ac felly nad yw hyn yn ddull cydgysylltiedig o weithredu.

Nododd rhai ymatebwyr nad oedd pwysigrwydd y diwydiant coedwigaeth wedi'i ystyried yn llawn hyd yma, o ran ei gyfraniad at gyflogaeth a'r economi a hefyd o ran gallu'r sector i gyfrannu'n gadarnhaol at y nod o ddatblygu economi sy'n seiliedig ar ddatblygu cynaliadwy. Mynegwyd pryder y gallai'r diwydiant coedwigaeth wynebu peryglon os bydd nodau'r corff yn wahanol i nodau llywodraeth. Nid oes digon o bwyslais ar werth y sector preifat. Pryder pellach oedd nad yw'n ymddangos bod yr ysgogiad i sefydlu'r corff yn ymwneud â sicrhau rheoleiddio gwell a mwy effeithlon. Ni ddylai'r corff reoleiddio'r sector preifat yn ormodol ym maes rheoli tir a choetiroedd.

Nodwyd amrywiaeth o fesurau cadarnhaol ar gyfer integreiddio coedwigaeth â'r corff yn llwyddiannus.

Dylai gweithredu'r strategaeth Coetiroedd i Gymru fod yn un o gyfrifoldebau canolog y corff. Dylai'r corff fabwysiadu'r athroniaeth sydd wedi'i hamlygu yn Coetiroedd i Gymru drwy gydnabod gwerth amgylcheddol coed a choetiroedd, eu cyd-destun cymdeithasol ac economaidd a'u cyfraniad hanfodol at ddiffinio tirwedd, hanes a diwylliant Cymru. Byddai ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau'n bwysig, ac roedd angen iddynt ddeall sut y byddai Coetiroedd i Gymru yn cael ei gyflawni.

Roedd cynigion penodol yn cynnwys yr anghenion hyn:

- Cadw sgiliau a rheoli coedwigaeth gan ddefnyddio staff gwybodus a phrofiadol.
- Sicrhau bod ffocws clir ar goedwigaeth o fewn y corff.
- Cyfarwyddo'r corff i sicrhau bod Coetiroedd i Gymru yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.
- Cyfathrebu effeithiol rhwng y corff a'r sector coedwigoedd/cynhyrchion coedwig.
- Ymgynghori pellach â'r sector pren yng Nghymru.
- Dal y corff yn atebol ar y materion hyn a'r angen am gynrychiolaeth i goedwigaeth ar y bwrdd.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y pryder ynghylch parhad perchenogaeth gyhoeddus ac roedd gwahaniaeth barn ynghylch a ddylid cadw'r ystad goedwigoedd yn y sector cyhoeddus. Roedd pryder hefyd am wrthdaro buddiannau posibl gan y byddai'r corff yn rheoleiddiwr ac yn berchennog ar ystad goedwigoedd Cymru. Oherwydd hynny, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid cadw'r swyddogaethau hyn ar wahân.

Er bod rhai ymatebwyr wedi mynegi pryder am yr agweddau sy'n ymwneud â choedwigaeth, roedd rhai yn y sector coedwigoedd hefyd yn croesawu'r ffaith ei bod wedi'i chynnwys. Ymhlith y dadleuon o blaid roedd y cyfle i gymhwyso dull 'Coedwigoedd i Gymru' yn ehangach; hwyluso rheoli amgylcheddol gan grwpiau coetiroedd cymunedol lleol; y posibilrwydd o feithrin gallu i integreiddio rheolaeth ar goetiroedd a defnyddio adnoddau coetiroedd o bob rhan o'r dirwedd; gallai arbed costau a rhoi mwy o werth am arian; cyfleoedd gwirioneddol i ddechrau o'r newydd; ac y gallai'r corff gryfhau'r rheoleiddio ar goedwigaeth a chyflenwi gwasanaethau'n well. Mynegwyd y farn hefyd y byddai cynnwys gweithgareddau masnachol Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn y corff yn gallu atgyfnerthu diwylliant o ddisgyblaeth ariannol.

Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r cynnig i barhau i ddyrannu adnoddau polisi penodedig at goedwigaeth o fewn Llywodraeth Cymru, er bod rhai'n anghytuno. Un farn bellach oedd bod sgiliau Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn rhy gyfyng ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, cafwyd sylw na fydd parhau ag ymarfer, polisi a rheoleiddio ar wahân yn y Comisiwn Coedwigaeth yn arwain at ohirio'r dull ecosystemau.

Dywedodd un ymatebydd fod yr ymgynghoriad yn rhoi gormod o bwyslais ar goedwigaeth a bod posibilrwydd o wrthdaro buddiannau rhwng gwahanol swyddogaethau'r corff.

*Pryderon gan ddiwydiant*

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cyfeirio at bryderon gan ddiwydiant a godwyd wrth baratoi'r achos busnes. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion gan y sector diwydiant yn gefnogol i'r dull cyffredinol o weithredu ac yn croesawu cynigion i symleiddio prosesau.

Rhoddodd nifer o ymatebwyr bwyslais ar y pryderon a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori drwy ddatgan na ddylai'r corff newydd gael effaith anffafriol ar ddiwydiant, y sector coedwigoedd etc, yn y cyfnod pontio neu ar ôl sefydlu'r corff. Pryder pellach oedd y gallai'r corff roi mwy o bwysau ar fusnesau yng nghyd-destun rheoleiddio a'r amgylchedd. Rhai o'r awgrymiadau a gafwyd gan ymatebwyr ynghylch sut i ddatrys y pryderon hyn oedd bod angen cyflwyno unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth drwy drafod â diwydiant, a'r angen i staff ddeall anghenion diwydiant a'r amgylchedd economaidd. Dywedodd rhai ymatebwyr fod pryderon gan ddiwydiant ynghylch rheoleiddio a mygu datblygiadau'n annhebygol o gael eu gwireddu gan y bydd y corff yn gallu datrys problemau o ran rheoleiddio sy'n bod ar hyn o bryd.

*Pryderon amgylcheddol*

Rhybuddiodd rhai ymatebwyr na ddylai sefydlu'r corff arwain at ddileu mesurau diogelu presennol ar gyfer yr amgylchedd – dylai diogelu'r amgylchedd fod yn un o werthoedd canolog y corff newydd. Rhaid cael mandad cadarn nid yn unig i ddiogelu'r amgylchedd ond ei wella hefyd. Dylai'r corff fod ag amcanion, swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau o ran cadwraeth.

Nododd nifer mawr o ymatebwyr fod angen i'r corff roi mwy o bwyslais ar gadwraeth a bioamrywiaeth. Roedd pryder y byddai'r sylw i gadwraeth natur yn wannach yn y corff newydd. Cafwyd deg ymateb gan aelodau o'r RSPB a awgrymodd y dylai'r corff newydd gael ei sefydlu'n hyrwyddwr dros gadwraeth natur.

Rhoddodd yr RSPB ei hun groeso gochelgar i'r cynnig cyffredinol ond teimlai fod angen rhoi llawer mwy o bwyslais yn y ddogfen ar ddiogelu neu gyfnerthu bywyd gwyllt a natur yng Nghymru a sicrhau na fydd gweithgareddau dynol yn gorymestyn adnoddau naturiol ac ecosystemau. Mynegodd ymatebwyr eraill bryder tebyg y byddai cael un corff yn gallu gwanhau'r gefnogaeth bresennol i'r amgylchedd. Dylid cael mwy o bwyslais ar ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol yng Nghymru.

Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol gan amrywiaeth o ymatebwyr sy'n ymddiddori mewn materion fel harddwch naturiol, yr amgylchedd hanesyddol, mynediad, hamdden a thwristiaeth, gwyddorau'r ddaear a geoamrywiaeth a nodwyd manteision posibl y dull hwn o weithredu. Er hynny, mynegwyd pryder hefyd gan nifer o'r ymatebwyr hyn nad oedd digon o sôn am rôl Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol a thirweddau gwarchodedig trawsffiniol fel AHNE Dyffryn Gwy.

Barn bellach oedd, er bod amgylchedd y tir wedi'i drafod, mai cyfyngedig oedd y cyfeiriadau at forweddau/yr amgylchedd morol a'u gwerth fel asedau naturiol, yn ogystal â'r rhyng-gysylltiad rhwng tir a môr a materion trawsffiniol.

Yn yr un modd, teimlai nifer o ymatebwyr fod y cyfeiriadau at rôl y corff wrth hyrwyddo mynediad cyhoeddus i gefn gwlad, gweithgareddau hamdden awyr agored a'r defnydd o afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr Cymru'n rhy gyfyngedig. Teimlwyd hefyd mai prin oedd y cyfeiriadau at fannau gwyrdd a hyrwyddo manteision yr amgylchedd naturiol o ran iechyd a lles.

Nododd nifer o ymatebwyr fod angen mwy o bwyslais ar ecosystemau trefol, mannau gwyrdd trefol ac amgylcheddau trefol. Yn benodol, dylai'r corff gyflawni rôl o ran hyrwyddo dull integredig o wella amgylcheddau lleol mewn ardaloedd trefol a gwledig. Yn yr un modd, byddai angen i'r corff roi pwyslais cryf ar ymgysylltu â chymunedau, addysg a hyfforddiant, a hynny'n cynnwys parhau â gwaith presennol Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar ddefnyddio'r amgylchedd at ddibenion addysgol, yn enwedig drwy barhau i gefnogi ysgolion Coedwig.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr hyn am gadarnhad y byddai dyletswyddau a phwerau presennol yn cael eu trosglwyddo i'r corff, ac y byddai mesurau diogelu ac adnoddau'n cael eu cadw neu eu gwella. Dywedodd nifer bach o ymatebwyr y bydd angen cysylltiadau agos rhwng y corff a CADW a bod cyfle i ymchwilio i'r dewis o gynnwys CADW yn y corff, gan y gellid cael arbedion ychwanegol.

*Pontio*

Mae angen rheoli'r broses bontio er mwyn osgoi gostyngiad mewn perfformiad. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod rhaid sicrhau'r effaith leiaf posibl ar wasanaethau i gwsmeriaid a rhanddeiliaid wrth sefydlu'r corff newydd. Cafwyd nifer o awgrymiadau mewn cysylltiad â hyn, gan gynnwys yr awgrym y dylid pennu amcanion a chanlyniadau ar gyfer y corff yn gynnar ac y dylid cael arweinyddiaeth gryf i leihau'r risgiau i staff y cyrff presennol i'r graddau mwyaf posibl. Mae cyfathrebu'n bwysig.

Roedd rhywfaint o bryder hefyd am yr effaith ar gyrff presennol gan fod niferoedd mawr o staff yn cael eu defnyddio'n awr i sefydlu'r corff. Ni ddylid amharu ar y swyddogaethau a phrosesau presennol. Cafwyd awgrym y gellid pennu camau wrth sefydlu'r corff newydd er mwyn osgoi amharu diangen ar y sector amgylcheddol.

Roedd pryder hefyd ynghylch y posibilrwydd o golli staff arbenigol ac arbenigedd. Derbyniai Unison fod dadl o blaid newid ac eglurodd fod angen canolbwyntio ar y sgiliau sydd gan aelodau staff, nid ar eu rolau presennol yn unig, gan fod sgiliau a galluoedd ehangach gan staff y gellir eu defnyddio. Credai rhai ymatebwyr y gallai'r angen godi i gael arbenigedd o leoedd eraill, e.e. y sector preifat. Pryder pellach oedd bod diffyg gwybodaeth ar gyfer staff ar hyn o bryd.

Bydd gwahaniaethau diwylliannol a fydd yn cynnig her. Mae newid a rheoli newid yn sgiliau arbennig ac mae angen trafod newid mewn ffyrdd sy'n osgoi amharu ar wasanaethau er mwyn sefydlu perthnasoedd gweithio.

Mae'r cyfnod pontio'n bwysig o ran sefydlu proses o ddysgu a datblygu sefydliadol. Bydd angen eglurhad ynghylch rheoli'r agweddau sy'n ymwneud â TGCh i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau o fewn y gyllideb.

*Materion eraill*

Honnodd rhai grwpiau mai cyfyngedig oedd y cyfle a gawsant hyd hynny i gyfrannu at ddatblygu'r ymgynghoriad. Er bod y ddogfen yn tynnu sylw at bryderon sydd gan y sectorau coedwigaeth a diwydiant, nid oedd pryderon gan sectorau eraill wedi'u hystyried. Felly, nid yw pryderon gan sectorau fel pysgodfeydd, cadwraeth, hamdden, mynediad a thwristiaeth wedi'u mynegi yn y ddogfen ymgynghori.

Mynegwyd y farn bod angen cyfeiriad mwy penodol at rôl y corff o ran sicrhau datblygu cynaliadwy ym moroedd Cymru.

Nododd rhai ymatebwyr fod angen deall materion sy'n ymwneud â datrys anghydfodau. Un awgrym, ar gyfer materion pwysig lle y gellid cael gwahaniaeth barn rhwng cyfreithwyr, oedd y dylid defnyddio barnwr amgylcheddol neu arolygydd annibynnol i ddelio â materion lled-farnwrol.

Dywedodd rhai ymatebwyr na ddylid newid y trefniadau presennol lle'r oeddent yn gweithio'n dda. Ni ddylid colli cysylltiadau â rhanddeiliaid ar lefel leol. Mae angen cynnwys rhanddeiliaid er mwyn sicrhau pwyllogrwydd a thryloywder.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr am fwy o eglurhad ynghylch sut y byddai'r corff newydd yn cydweithio â'r trydydd sector. Mae angen mwy o eglurhad ynghylch a fydd grantiau presennol yn parhau.

Roedd barn y dylai'r corff gyflawni rôl o ran datblygu cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol fel rhai ym maes addysg a hyfforddiant.

Credwyd bod angen eglurhad cyffredinol pellach ynghylch sut y bydd y corff yn rhyngweithio ag asiantaethau eraill ac adrannau, gan gynnwys rhyngweithio ar faterion trawsffiniol fel Afon Dyfrdwy a hefyd mewn cysylltiad â materion arbenigol.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Dylid parhau i brynu rhai gwasanaethau a rennir oddi wrth y rhiant-gyrff, oni bai eu bod yn cael eu darparu'n well yng Nghymru. Roedd angen mwy o eglurhad ynghylch parhau i ddarparu gwasanaethau arbenigol trawsffiniol. Nid oedd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch gwasanaethau dadansoddi sy'n rhan o swyddogaethau'r cyrff eraill. Barnwyd y byddai cael gwasanaeth labordy penodedig yn Llanelli yn fodd i gryfhau hyn.
- Yr angen i barhau i ganolbwyntio ar ddelio â materion sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr a llifogydd.
- Tynnwyd sylw at natur gymhleth y broses o ad-drefnu ar raddfa fawr, gan gynnwys TG a phensiynau. Mae profiad yn y sector cyhoeddus wedi dangos ei bod yn aml yn cymryd mwy o amser i ddatrys materion fel TG a bod y gost yn gallu bod yn fwy na'r amcangyfrif.
- Dylid bod yn ochelgar wrth drosglwyddo swyddogaethau eraill i'r corff newydd, gan fod cyfraith amgylcheddol yn gymhleth.
- Roedd angen egluro'r cysylltiad â'r system gynllunio. Rhaid i'r corff ymateb mewn ffyrdd effeithlon, amserol ac effeithiol i gynigion ar gyfer datblygu.
- Dylid ymrwymo i gadw'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol, gan ei fod yn ased gwerthfawr ar gyfer rhannu'r arferion gorau.
- Roedd angen mwy o eglurhad ynghylch y rôl sy'n cael ei rhannu rhwng y corff a Llywodraeth Cymru.
- Dylai Rhaglen Ynni Gwynt Comisiwn Coedwigaeth Cymru gael ei chadw gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwrthdaro buddiannau posibl hwn wedi'i gadw 'hyd braich'.

- Amharir ar y gallu i gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol gan y bydd y cyfrifoldeb dros weithgareddau'r tir, yn enwedig dros amaethyddiaeth a dulliau cymorth fel Glastir, y tu allan i gylch gwaith y corff.
- Bydd y gallu i gyflawni swyddogaethau'r corff yn effeithiol o fewn y sector preifat yn dibynnu ar yr offerynnau polisi sydd ar gael iddo.
- Nid yw'r ddogfen ymgynghori'n rhoi diffiniad clir o'r heriau cyffredinol sy'n wynebu'r Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.
- Er y bydd mantais o gael 'siop un stop' ar gyfer rheoleiddio amgylcheddol, bydd yn bwysig diffinio pwyntiau cyswllt yn glir.
- Un gwelliant sylweddol fyddai cysoni'r amserlenni ar gyfer cydsynio â'r amserlenni perthnasol ar gyfer caniatâd/pwyllgorau cynllunio.
- Mae perygl mawr mewn ymgymryd â newid sefydliadol mawr yr un pryd â gweithredu newid sylweddol mewn polisi.
- Roedd angen eglurhad pellach ynghylch rôl y corff o ran datblygu a chyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
- Dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru weithredu fel busnes masnachol gan elwa i'r graddau mwyaf posibl o blannu, teneuo, cynnal, cynaeafu a marchnata pren o'r ansawdd gorau. Os gwneir hyn, gallai'r cnwd fod yn werth tua £4-6 miliwn yn fwy y flwyddyn.
- Dylid ystyried dod ag arbenigedd rheoli i mewn o'r sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Mae'r termau 'amgylchedd' ac 'amgylchedd naturiol' yn cael eu defnyddio fel petaent yn gyfystyr. Mae angen mwy o eglurhad ynghylch y berthynas rhwng y corff a'r rheini sy'n diogelu'r amgylchedd hanesyddol, sy'n rhan o'r 'amgylchedd' ac yn cyfrannu at ecosystemau.
- Pryder y bydd arbenigedd mewnol y staff archeolegol yn y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael ei golli.
- Ni ddylai'r corff droi'n gorff rheoleiddio'n unig; dylai fod yn gyfrifol am reoleiddio, gweledigaeth ac arloesedd.
- Byddai'n fanteisiol cyfuno cydsyniadau fel bod y corff newydd yn rhoi un cydsyniad.
- Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar ganolfannau cofnodion lleol, bioamrywiaeth leol a rhanbarthol a phartneriaethau amgylcheddol.
- Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar geoamrywiaeth. Mae'r arbenigedd yn y maes hwn yng Nghymru'n gyfyngedig iawn, felly mae angen i'r sectorau perthnasol gydweithio'n agosach. Nid oes sôn yn y ddogfen ymgynghori am ddaeareg, geomorffoleg na geocadwraeth.
- Dylai'r corff gael ei gynrychioli yn Fforwm Diwydiant Dŵr Cymru Llywodraeth Cymru ac yn ystod y broses nesaf i osod prisiau yn Adolygiad Prisiau 14 Llywodraeth Cymru.
- Nid yw'r ymgynghoriad yn adlewyrchu'r rôl gadarnhaol sydd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru mewn cysylltiad â mynediad, hamdden a gwaith tirweddu.
- Byddai newidiadau yn y gyfundrefn bresennol yn gallu arwain at lai o ystyriaeth i wasanaethau statudol di-graidd y tair asiantaeth. Ni ddylid lleihau'r gwasanaethau hyn.
- Pryder na fydd Coetiroedd Gwell i Gymru, gweledigaeth ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru dros yr hanner can mlynedd nesaf, yn parhau.

- Pryder ynghylch diffyg gallu yn y cyrff statudol a Llywodraeth Cymru i roi cynllunio morol ar waith.
- Nid yw’r cynigion yn egluro’r rhyngweithio ag awdurdodau lleol, er enghraifft, wrth roi caniatâd amgylcheddol.
- Pryder y bydd y corff yn mabwysiadu dull o orfodi a gosod sancsiynau o’r dechrau ac y bydd hynny’n arwain at ymagwedd lai cydweithredol at ddiwydiant. Mae’n bosibl na fydd y cyfle i osod amodau mwy ymestynnol nag yn yr UE yn hybu busnesau.
- Mae’r bwriad i gynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn y corff newydd ar ‘hyd braich’ oddi wrtho’i hun yn ffordd gwbl newydd o weithredu gan unrhyw lywodraeth yn Ewrop gan ei bod yn tynnu cyfrifoldeb ac atebolrwydd dros goedwigaeth o awdurdodaeth uniongyrchol llywodraeth. Nid yw’r dull gweithredu radicalaidd hwn wedi’i ystyried yn drwyadl.
- Mae’n bosibl y bydd angen modelau newydd i werthuso prosiectau er mwyn rhoi mwy o sylw i’r manteision a allai godi y tu allan i’r farchnad.
- Mae’n bosibl y bydd y gwaith o ddatod swyddogaethau sy’n ymwneud â Chymru oddi wrth gyrff sy’n gweithredu ledled y DU yn wrthdyniad mawr o safbwynt gweinyddol a chyfreithiol.
- Mae cyfle hefyd o fewn y corff i gydgysylltu camau i hyrwyddo datblygiad tanwydd coed yn y sectorau cyhoeddus a phreifat .
- Os na fydd datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy’n un o’r prif amcanion, ni fydd modd i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch cydsynio yn unol â blaenoriaethau polisi.
- Rhaid cael profiad da ym maes rheoli tir yn y bwrdd gweithredol.
- Dylid cael staff o’r enw swyddogion galluogi busnesau gwledig i helpu mewn sefyllfaoedd lle mae angen cadw cydbwysedd rhwng hwyluso busnesau proffidiol a gwella’r amgylchedd.
- Os mai datblygu cynaliadwy yw’r egwyddor drefniadol, rhaid rhoi’r un pwys i ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Dylid cael canllawiau clir ar gyfer proses apelio deg a thryloyw.
- Hoffai weld mwy o eglurder ynghylch y mesurau ymarferol y gellir eu cymryd i ddangos yr ymrwymiad bod Cymru ‘yn agored i fusnes’.
- Byddai’n hanfodol i’r corff allu adennill Treth ar Werth.
- Mae cyfranogi ac ymgysylltu â dinasyddion yn agwedd hanfodol ar ddatblygu cynaliadwy.
- Dylid parchu’r sylfaen dystiolaeth gryf o blaid cadwraeth yng Nghymru ochr yn ochr â’r agweddau masnachol ar swyddogaethau eraill.
- Wrth weithredu, dylid ceisio creu mwy o gydlyniant drwy gyfuniad o flaenoriaethau sydd wedi’u pwysoli’n briodol ac sydd heb fod yn gytbwys.
- Dylai’r cynnig i greu un corff fod yn destun asesiad amgylcheddol strategol.
- Dylid cofio na ellir gwneud penderfyniadau lleol ar wahân i ddeddfwriaeth neu gytundebau rhyngwladol.
- Dylid rhoi sicrwydd y bydd pob disgyblaeth berthnasol yn cael ei hystyried i’r un graddau wrth gyflawni swyddogaethau’r corff ac wrth ddelio â sefydliadau allanol.

**Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ar y dull gweithredu fesul cam hwn? Sut y gallem ei wella?**

**Trosolwg**

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r dull gweithredu fesul cam gan fod ymatebwyr yn cytuno bod angen gweithredu'n effeithlon fel na fydd effaith niweidiol ar wasanaethau presennol ac er mwyn sicrhau parhad busnes.  Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i sefydlu'r corff ar ffurf "gysgodol" er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo'n effeithiol heb doriad.

**Themâu cyffredin**

*Sylwadau manwl am y dull o weithredu*

Yn gyffredinol, dywedodd ymatebwyr y dylai'r broses gael ei chynllunio'n ofalus i sicrhau na fyddai oedi.  Mae angen rhoi dulliau rheoli ar waith i sicrhau na fydd lefel y perfformiad yn gostwng, a bydd hyn yn galw am reoli ac amserlennu gofalus yn ogystal ag adolygu parhaus.

Roedd gwahaniaeth barn am yr amserlen ar gyfer sefydlu'r corff.  Roedd nifer o ymatebwyr yn cydnabod y bydd heriau wrth sefydlu'r corff newydd a bod yr amserlen yn uchelgeisiol.  Credai rhai fod y dyddiad breinio arfaethedig ar 1 Ebrill 2013 yn ymarferol a dichonol.  Er hynny, credai nifer o ymatebwyr eraill fod y dyddiad breinio'n rhy gynnar ac y dylid datblygu'r gwaith ar gyflymdra mwy cyson na'r hyn a fwriedir.  Roedd nifer o'r farn y gellid cael canlyniadau negyddol o ruthro i newid a bod materion cymhleth i'w datrys fel yr angen i roi systemau priodol ar waith.  Yn ogystal â hyn, credai rhai ymatebwyr nad oedd yr amserlen yn caniatáu ond ychydig o amser i adlewyrchu trafodaethau â rhanddeiliaid e.e. ar ôl yr ymgynghoriad.  Byddai mwy o gyfleoedd i drafod â chleientiaid/partneriaid presennol yn gallu helpu i ddatblygu'r rhyng-gysylltiad â'r cyhoedd.

Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn y dylid sefydlu'r corff newydd yn gyflymach na'r hyn a gynigiwyd.

Roedd gwahaniaeth barn am y dull graddol o drosglwyddo swyddogaethau i'r corff.  Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid y cynnig.  Cyfeiriodd rhai at fanteision y dull hwn o weithredu, gan gynnwys y farn y byddai'n galluogi'r corff newydd i adlewyrchu'r newidiadau ehangach mewn polisi a deddfwriaeth a'r broses o ddatblygu Cymru Fyw, felly mae hyn yn cynnig cyfle unigryw i Gymru.  Credai rhai ymatebwyr y dylid cwblhau'r cynigion ar gyfer Cymru Fyw yn gyntaf fel y caiff y corff gylch gwaith amgylcheddol pendant.   Y farn a fynegwyd gan eraill oedd, er mai'r peth delfrydol fyddai cwblhau'r ymgyngoriadau ar Cymru Fyw a'r Biliau arfaethedig ynghylch Datblygu Cynaliadwy, Cynllunio a'r Amgylchedd, cyn dechrau cynllunio'n fanwl ar gyfer y corff, ei bod yn bosibl ymgymryd â'r prosesau ochr

yn ochr â'i gilydd.  Er hynny, dylai'r corff gael cyfrannu ar ddrafftio'r biliau arfaethedig.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynnal gwasanaethau'n effeithlon er budd busnesau cwsmeriaid.
- Mae'n ymddangos mai prif bwrpas y dull hwn o weithredu yw aildrefnu'r pwerau presennol, felly nid yw'n ddigon uchelgeisiol.
- Byddai sefydlu'r corff ac adolygu blaenoriaethau'n gallu arwain at oedi, yn enwedig os oes bwriad i ymgynghori ymhellach.
- Dylid cael cyfnod hyblyg ar gyfer ymsefydlu i'r corff newydd, cyn cynllunio camau pellach.
- O blaid gweld y corff yn darparu cyngor manwl i Lywodraeth Cymru am y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer gwella safonau amgylcheddol.
- Mae angen sicrhau ymgysylltu â rhanddeiliaid/y cyhoedd yn ystod cyfnod y dull gweithredu fesul cam.
- Credai rhai ymatebwyr fod angen eglurhad gwell o'r dull gweithredu fesul cam.
- Dylai'r corff newydd allu dylanwadu ar amaethyddiaeth.
- Sicrhau bod y staff sy'n gysylltiedig yn cael eu trosglwyddo mewn ffordd ddi-dor, lyfn a chyflym er mwyn lleihau ansicrwydd a chynnal parhad busnes.
- O blaid cael archwiliad blynyddol annibynnol o berfformiad ariannol a pherfformiad staff yn ogystal ag adolygiad o'r cynnydd ar effeithiolrwydd yn y corff.
- Mae angen model ar gyfer diogelu'r amgylchedd.
- Dylid rhoi sylw i'r dirwedd hanesyddol mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd ar hyn yn ogystal â'r amgylchedd a chynllunio.
- Mae'n hollbwysig bod y cyfrifoldeb dros reoleiddio, gorfodi a monitro'n cael ei integreiddio yn y corff.
- Sicrhau bod y corff newydd wrth gyflawni ei rôl yn rhyngweithio â'r fframwaith o ofynion deddfwriaethol sy'n datblygu ar gyfer cynllunio/cydsynio mewn cysylltiad â datblygiadau ar dir, a'i fod yn dylanwadu arno.
- Dylid efelychu Siarter Geoamrywiaeth yr Alban, a gyhoeddir ym Mehefin 2012.
- Dylid asesu pob dull o weithredu ar sail costau a buddion amgylcheddol.
- Edrych ymlaen at ddull mwy integredig o reoli'r amgylchedd yn gynaliadwy.
- Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, sefydliadau arbenigol allanol a phartneriaid yn ystod cyfnod y dull gweithredu fesul cam.
- Sicrhau bod ymrwymiadau presennol fel contractau a hawliau mynediad yn cael eu cyflawni.
- Adeiladu ar sail enghreifftiau o'r ymarfer gorau yn y perthnasoedd presennol.
- Mae'n hollbwysig creu diwylliant sefydliadol o gyflawni a hwyluso cyflawni o'r dechrau.

- Ni ddylai'r dull gweithredu fesul cam effeithio ar drefniadau partneriaeth neu ddarpariaethau eraill ar gyfer cyflenwi gwasanaethau sy'n cael eu rheoli gan y sector gwirfoddol.
- Sicrhau ystyriaeth ddyladwy i faterion trawsffiniol (Cymru/Lloegr) a dynodiadau.

| **Cwestiwn 4: A yw'r cynigion hyn yn sail dda i brif nod a chanlyniadau strategol y corff? Sut y gellid eu gwella?** |
|---|

### Trosolwg

Cafwyd sylwadau gan nifer mawr o ymatebwyr am y prif nod a'r amcanion strategol. Roedd bron 70% ohonynt wedi awgrymu newidiadau yn y prif nod neu'r amcanion strategol, neu'r ddau. Mynegwyd gwrthwynebiad gan rai ymatebwyr (llai na 10%) i'r prif nod a/neu ganlyniadau strategol.

### Themâu cyffredin

*Nod y corff*

Credai nifer o ymatebwyr y dylai'r nod gynnwys cyfeiriad at yr amgylchedd ac, yn benodol, y dylai gyfeirio'n glir at gadwraeth natur a bioamrywiaeth. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y dylai'r nod gynnwys cyfeiriad hefyd at y manteision economaidd i bobl ac economi Cymru a'r manteision i iechyd a chymdeithas a allai godi.

Roedd nifer o ymatebwyr yn gefnogol iawn i'r cynnig i roi lle canolog i'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy yn y corff.

*Datblygu Cynaliadwy*

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid cynnwys diffiniad clir o'r term hwn er mwyn osgoi dryswch. Rhoddwyd pwyslais gan lawer ar y cydbwysedd rhwng tair colofn cynaliadwyedd yn y corff, a mynegwyd safbwyntiau cwbl groes gan rai a oedd yn awgrymu bod rhagfarn oblygedig o blaid datblygu, ac eraill a honnai fod rhagfarn o blaid cadwraeth, gan awgrymu newidiadau'n unol â hynny. Nododd rhai ymatebwyr o'r sector busnes nad oedd digon o gyfraniad yn y prif nod at hybu datblygu economaidd, gan gydnabod y lle sydd i ddiwydiannau cloddio a'r fantais i ddatblygu cynaliadwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Cafwyd dadleuon clir a chryf am y lle sydd i goedwigaeth wrth sicrhau datblygu cynaliadwy yn ogystal â'r farn gan nifer y dylai'r corff fod yn gyfrifol am gyflawni Strategaeth Goetiroedd Cymru.

Credai nifer o ymatebwyr y dylid cael cysylltiad clir rhwng nod y corff a'r nodau sydd yn y Papur Gwyrdd ar Gynnal Cymru Fyw ac yn nogfennau Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

*Bioamrywiaeth a bywyd gwyllt*

Rhaid i bwrpas y corff fod yn glir yn ogystal â'i brif swyddogaeth, sef sicrhau ecosystemau iach a gweithredol ar ran pobl a bywyd gwyllt Cymru.

Roedd barn glir nad oedd pwysigrwydd bioamrywiaeth a safleoedd dynodedig (SoDdGA etc) wedi'i drafod yn ddigonol, yn enwedig mewn cysylltiad â gwerth cynhenid bioamrywiaeth, heblaw am y defnydd uniongyrchol ohoni gan ddyn mewn gwasanaethau ecosystemau. Barnwyd bod safleoedd gwarchodedig yn gonglfeini pwysig yn yr amgylchedd. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn mai prif bwrpas priodol y corff oedd atal colli bioamrywiaeth.

Mae angen egwyddor a phwrpas trefniadol canolog priodol i'r corff sy'n sicrhau na chaiff safonau amgylcheddol eu diraddio, yn unol ag Adran 16 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus.

*Tirwedd*

Teimlwyd nad oedd digon o sylw wedi'i roi i'r cysyniad o dirwedd, yn enwedig mewn cysylltiad â'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn cysylltiad â thirweddau gwarchodedig a thirweddau hanesyddol/diwylliannol. Nodwyd bod cysylltiad clir rhwng tirweddau sydd wedi'u rheoli'n dda a thwristiaeth, a'r budd economaidd a chymdeithasol sy'n deillio o hynny.

*Gweithgareddau hamdden awyr agored a mynediad cyhoeddus i gefn gwlad*

Awgrymwyd y dylid cynnwys cyfeiriad at weithgareddau hamdden awyr agored a mynediad cyhoeddus i gefn gwlad yn y nod, gan ddangos cysylltiad clir rhwng y pwnc hwn a buddion economaidd o dwristiaeth gweithgareddau, agweddau cymdeithasol ar fynediad i fannau gwyrdd a chefn gwlad yn ogystal â manteision clir iawn i iechyd.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Roedd barn bendant y dylid datgan yn glir fod rôl i'w chyflawni gan y corff newydd yn yr amgylchedd morol yn ogystal ag ar dir, yn enwedig mewn cysylltiad â rheoli adnoddau naturiol. Roedd barn hefyd y dylid cynnwys swyddogaethau rheoli a gorfodi ar gyfer pysgodfeydd môr yn y corff newydd.
- Nododd nifer sylweddol o ymatebwyr nad oedd sylw priodol wedi'i roi i geoamrywiaeth a gwyddorau'r ddaear fel y sail i'r holl wasanaethau ecosystemau.
- Barnwyd bod diffyg cyfeiriad at addysg yn y ddogfen gan fod y cysylltiad rhwng dysgu gydol oes ac addysg yn gyffredinol a datblygu cynaliadwy a dealltwriaeth o'r amgylchedd yn cael ei ystyried yn bwysig iawn.
- Credwyd bod cyfranogi gan y cyhoedd/rhanddeiliaid yn hollbwysig i sicrhau bod y corff wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystyrlon ar bob lefel; yn lleol ac ar lefel Cymru, yn enwedig ar ôl diflaniad Pwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd, Ecoleg a Hamdden a phwyllgorau eraill Asiantaeth yr Amgylchedd.

- Roedd nifer o ymatebwyr yn credu'n gryf y dylid cael mwy o bwyslais ar reoli perygl llifogydd.
- Mae'n ymddangos bod y pwyslais ar ddefnyddio yn hytrach na diogelu a stiwardiaeth gyfrifol.
- Mynnai nifer o ymatebwyr nad oes digon o gyfeiriadau at yr amgylchedd diwylliannol a hanesyddol.
- Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen am fwy o gydgysylltu rhwng y corff a Llywodraeth Cymru ac am gydnabod y cyfraniad gan gynhyrchion coedwig at ddatblygu cynaliadwy a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd**.**
- Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylid cyfeirio'n benodol at drefniadau gorfodi.

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ar y cynigion mewn perthynas â'r fframwaith cyflawni?**

## Trosolwg

Roedd ymatebwyr yn gefnogol gan mwyaf i'r cynigion ynghylch y fframwaith cyflawni. Rhai o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynigion oedd ei bod yn galonogol bod sylw wedi'i roi i gwsmeriaid a staff; bod amcanion cynaliadwyedd i'w croesawu; bod y fframwaith yn ddefnyddiol i wahaniaethu rhwng y gofal am adnoddau naturiol a'r ffordd o'u defnyddio.

## Themâu cyffredin

*Fframwaith Cyflawni*

Roedd nifer o ymatebwyr yn cydnabod bod y fframwaith cyflawni yn fframwaith rhagarweiniol ac y dylai gael ei ddatblygu drwy gynnwys canlyniadau ac amcanion penodol. Cafwyd awgrymiadau am y manylion y dylid eu cynnwys. Rhai o'r awgrymiadau oedd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar agweddau cymdeithasol fel cyfranogaeth gymunedol, addysg a hyfforddiant ac iechyd cyhoeddus a mwy o bwyslais ar agweddau morol.

Tynnwyd sylw mewn nifer o ymatebion at yr angen i bennu a sefydlu amcanion a mesurau economaidd a chymdeithasol mwy penodol. Nodwyd hefyd ei bod yn ymddangos nad oedd digon o bwyslais ar y cyfleoedd economaidd sydd ar gael yn yr amgylchedd naturiol.

Yn ogystal â hyn, dylai'r fframwaith cyflawni geisio mesur canlyniadau a fyddai'n ffordd lawer mwy cywir o fesur llwyddiant neu fethiant.

Mynegwyd rhywfaint o bryder bod y fframwaith cyflawni yn canolbwyntio'n llwyr bron ar y defnydd o adnoddau ac y gellid casglu o hynny mai prif swyddogaeth y corff oedd elwa o'r amgylchedd.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylid ystyried barn rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau wrth lunio nodau ac amcanion, targedau cyflawni a dangosyddion perfformiad. Roedd awgrym hefyd y dylid diffinio'r berthynas â phartneriaid strategol yn fwy manwl. Awgrymwyd bod y fframwaith cyflawni yn disgrifio sut mae'r corff yn bwriadu cydweithio â phartneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, busnesau a chymunedau lleol, i sicrhau'r canlyniadau sydd wedi'u pennu.

Roedd rhai o'r farn y dylid seilio'r fframwaith ar fframweithiau presennol y tri chorff.

Dywedodd nifer o ymatebwyr ei bod yn bwysig bod y fframwaith cyflawni yn dal at egwyddorion tryloywder, eglurder, cysondeb, atebolrwydd, adborth a dysgu.

Gellid cael mwy o eglurder a thryloywder drwy ddull symlach o weithredu a fyddai'n canolbwyntio ar yr amcanion strategol sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru a dylai'r fframwaith groesgyfeirio at strategaethau Llywodraeth Cymru.

Dylai mesurau o lwyddiant a methiant fod yn gysylltiedig â pherfformiad ar sail targedau polisi penodol. Dylai'r fframwaith gynnwys dadansoddiad manylach o bolisïau'r Llywodraeth y gall y corff ddylanwadu arnynt mewn cysylltiad â'r newid yn yr hinsawdd, tai, bio-ynni, bioamrywiaeth, addysg, dysgu a sgiliau a chyflogaeth.

Credai nifer o ymatebwyr y dylai'r strategaeth Coetiroedd i Gymru gyfeirio a chyfrannu at y ffocws yn y corff newydd ar goetiroedd a choedwigoedd Cymru. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod gormod o sylw i goedwigaeth a choetiroedd ac mai prin iawn oedd y sôn am gynefinoedd a rhywogaethau eraill, ac nad oedd ond y cyfeiriad lleiaf at fioamrywiaeth.

Roedd nifer bach o ymatebwyr, sef yn bennaf y rheini nad oeddent yn cefnogi'r cynnig cyffredinol i sefydlu un corff, yn anghytuno hefyd ar y fframwaith cyflawni.  Pryder arall oedd nad oedd y cynigion yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau i gwsmeriaid.  Credai nifer bach nad oedd yn addas i'w ddiben.

Awgrymodd rhai ymatebwyr, yn enwedig aelodau o'r cyhoedd, nad oedd y fframwaith cyflawni yn eglur nac yn hawdd ei ddefnyddio ac felly bod angen diffiniad cliriach heb jargon.  Roedd angen cysylltiadau mwy eglur rhwng y categorïau yn y Fframwaith Cyflawni h.y. Amcanion, Llwyddiant, a Dangosyddion.

Mynegwyd y farn y dylid trefnu i'r cynllun cyflawni fod ar gael yn rhwydd ar y rhyngrwyd ac y dylai fod mor syml â phosibl.

Gellid trefnu'r amcanion yn unol â chategorïau'r gwasanaethau ecosystemau gan ddangos enghreifftiau ymarferol o fentrau i gyflawni'r amcanion hynny, a dolenni i'w cysylltu â'r papur gwyrdd.

Awgrymwyd y dylai'r fframwaith cyflawni roi manylion mwy penodol ar gyfer gwahanol sectorau a'i bod yn ymddangos yn briodol cynnwys asesiad o lwyddiant pob sector o fewn fframwaith polisi ar sail canlyniadau mesuradwy.

Dylid rhoi rôl arwain hefyd i'r corff newydd i ddatrys rhai o'r problemau anodd a'r galwadau am gyfaddawdu sy'n codi yng nghyd-destun cymhleth rheoli amgylcheddol, yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n fanwl.

Ym marn nifer bach o ymatebwyr, dylid gosod amcan clir i'r corff newydd i geisio cysoni ei weithgareddau cydsynio i'r graddau mwyaf posibl a dylid nodi hyn yn glir ym mhwrpas y corff, y fframwaith cyflawni ac unrhyw ganllawiau ategol. Dylai'r corff gydweithio'n agos iawn â hyrwyddwyr prosiectau a Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno ceisiadau er mwyn cysoni cydsyniadau hyd y gellir.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai ymchwil, monitro a gwerthuso a lledaenu'r arferion gorau fod yn ddyletswydd i'r corff.

Dylid cynnwys monitro a gwerthuso o'r dechrau, ynghyd ag adborth gan randdeiliaid, a byddai'n fuddiol cymharu'r graddau y mae amcanion y corff newydd yn cael eu cyflawni'n awr â'r graddau y byddant yn cael eu cyflawni yn y dyfodol ar ôl sefydlu'r corff newydd.

Awgrymwyd y gellid datblygu Pecyn Prisio Seilwaith Gwyrdd Groundwork Cymru er mwyn mesur canlyniadau.

Dylid cydnabod y cysylltiad clir rhwng rheoli amgylcheddol a'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy a'i gynnwys yn y fframwaith.

Dylai'r amserlenni ar gyfer sicrhau canlyniadau fod yn glir ac ymarferol. Fel arall, mae perygl y bydd yr holl ymdrechion yn digwydd mewn un maes ar draul rhai eraill.

*Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol*

Er bod nifer o ymatebwyr yn croesawu'r cynnig i gael Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol a Memorandwm Ariannol manwl, mynegwyd pryder gan nifer bach o ymatebwyr am y trefniant blynyddol ac awgrymwyd gosod fframwaith llywodraethu cadarn i bennu cylch gwaith clir ar y dechrau gydag adolygiad ar ôl pum mlynedd yn lle hynny.

Awgrymwyd y dylid rhoi prosesau ar waith i graffu ar ymddygiad a pherfformiad y corff yn unol â'r Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol a'r Memorandwm Ariannol ac y dylid cael ymrwymiad cynnar i fodloni safonau perfformiad a gaiff eu pennu a'u hadolygu drwy drafod â defnyddwyr. Mae angen bod yn gwbl dryloyw ynghylch llwyddiant neu fethiant wrth geisio cyrraedd y safonau hyn.

Dylai cwsmeriaid gael herio ymddygiad neu berfformiad (neu ddiffyg perfformiad) a allai ymddangos yn anghyson â chylch gwaith y corff. Dylai fod yn bosibl atgyfeirio heriau o'r fath at ombwdsmon annibynnol.

Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn nad oedd angen cyfarwyddyd i ategu'r llythyr cylch gwaith blynyddol a'r memorandwm ariannol gan y byddai perygl i'r corff newydd gael ei reoli'n rhy fanwl. Dylid rhoi digon o ryddid i'r corff newydd weithredu'n hyblyg o fewn paramedrau eang.

Cymerwyd y dylai'r fframwaith cyflawni a'r llythyr cylch gwaith blynyddol ddangos bod bwriad clir i'r corff fod yn annibynnol a chael gweithredu fel cyfaill beirniadol i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat.

Mynegwyd pryder na fyddai rhai buddiannau yn cael cyfle i gyfrannu at lunio'r Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol a'i bod yn bwysig cynnwys partïon cysylltiedig a lleygwyr er mwyn sicrhau pwyllogrwydd a thryloywder.

*Pobl a phartneriaethau*

Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r sylw a roddir i staff yn y fframwaith am eu bod yn credu bod ymgysylltu da â staff yn hanfodol ar gyfer ymgysylltu da â chwsmeriaid. Dylai'r corff gydnabod bod staff yn elfen allweddol ym mhob sefydliad llwyddiannus a bod rhaid ennyn cymhelliant a brwdfrydedd ynddynt. Rhaid i staff gredu eu bod yn rhan o gysyniad y corff a rhaid eu cynnwys wrth ei ddatblygu. Dylai'r diwylliant mewnol fod yn flaenoriaeth yn y fframwaith cyflawni.  Bydd llwyddiant y corff yn dibynnu ar y gallu i arwain, hyfforddi ac ysgogi staff.

Awgrymwyd y dylai'r fframwaith ganiatáu meithrin yr arbenigedd sydd gan staff yn y sefydliadau presennol a pheidio â gadael iddo leihau.

Tynnwyd sylw at yr angen i neilltuo staff i ffrydiau gwaith penodol ym maes rheoleiddio a chynghori, yn ogystal â sicrhau bod staff sy'n rhyngweithio â chwsmeriaid yn cyfathrebu'n rhagorol, gan ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg. I lawer o bobl, y rhain fydd wyneb y corff newydd a gellid dadlau mai'r rhain fydd ei aelodau staff pwysicaf.

Teimlwyd y dylid cael cysyniad o siop un stop ond na fyddai hyn yn gweithio mewn sefydliad mawr oni bai fod system briodol ar waith i gael gafael ar y person priodol i ddelio ag ymholiadau'n effeithiol ac yn gyflym. Bydd yn bwysig rheoli staff yn gadarn gan bennu ffiniau'n glir a sicrhau ymagwedd barod i weithredu.

Dylid mabwysiadu'r cynnig ynghylch partneriaethau strategol â phartneriaid y gellir ymddiried ynddynt.  Ar ôl achredu partneriaid o'r fath, dylent gael eu rheoleiddio'n ysgafn fel y gellir canoli adnoddau mewn meysydd risg uchel.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen fframwaith cynllun gofodol strategol i bennu'r cyd-destun a'r angen am sgiliau priodol ar lefel leol.

Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys colofn adnoddau yn y fframwaith i ddangos yr anghenion posibl ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, a cholofn addysg a hyfforddiant i ddangos sut y gellid helpu staff i gyflawni'r nodau.

*Agweddau ariannol*

Roedd croeso i'r pwyslais ar werth am arian a dylid ymestyn hyn i gynnwys gwaith a phrosiectau y mae cwsmeriaid dŵr yn debygol o dalu amdanynt er mwyn cyrraedd safonau amgylcheddol, a dylid dangos tystiolaeth o'u gwerth cyn eu cymeradwyo.

Nodwyd bod angen hyblygrwydd diwedd blwyddyn i ddarparu ar gyfer masnachu pren gan fod y Comisiwn Coedwigaeth yn gallu dwyn arian ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn ar hyn o bryd.

Dylid paratoi cyfrifon ariannol manwl i asesu gwerth am arian ac i fesur yr arbedion ariannol a'u cymharu â'r hyn sydd wedi'i addo yn yr Achos Busnes.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Dylai dull y fframwaith cyflawni fod yn ddigon hyblyg i ddelio â materion sy'n codi.
- Mae'r dull cyflawni'n awgrymu nad yw trefniadau presennol y cyrff yn gweithio, ac nid yw hyn yn wir.
- Dylai'r corff ddatblygu atebion yn hytrach na delio â phroblemau a dylai ganolbwyntio ar y cwsmer.
- Roedd nifer yn pryderu am rôl y corff o ran hyrwyddo ynni adnewyddadwy cynaliadwy gan eu bod yn credu bod hyn yn weithgarwch i'r sector preifat ac nid i'r corff newydd. Ei rôl fydd cynghori'r rheoleiddiwr a rhaid i'w farn fod yn annibynnol a diduedd er mwyn i'r cyngor fod yn gredadwy. Fodd bynnag, teimlai eraill y dylai'r fframwaith gynnwys amcanion i hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy yn unol ag ymrwymiadau rhyngwladol ar ynni adnewyddadwy a newid yn yr hinsawdd, a chanllawiau ar y modd y bydd y corff newydd yn cyflawni'r amcanion hyn.
- Byddai wedi bod yn fuddiol ystyried trosglwyddo swyddogaethau o'r corff i Lywodraeth Cymru neu gyrff eraill, yn enwedig mewn cysylltiad â rheoli perygl llifogydd a'r swyddogaethau yr oedd y Fenter Goedwigaeth yn eu cyflawni o'r blaen.
- Dylai'r fframwaith cyflawni roi mwy o bwyslais ar faterion cymdeithasol gan ei fod yn ymwneud yn ormodol â'r amgylchedd ar hyn o bryd.
- Nododd nifer o ymatebwyr fod bylchau yn yr amcanion, y meini prawf ar gyfer llwyddiant a'r dangosyddion gan nad oedd sôn am yr amgylchedd ffisegol, adnoddau, geoamrywiaeth nac unrhyw agwedd ar yr amgylchedd anfiotig. Dylid cynnwys amcanion mesuradwy ar gyfer yr amgylchedd ffisegol a hanesyddol.
- Nid oedd sôn ychwaith am ddyfroedd mewndirol a dylid cyfeirio atynt ochr yn ochr â thirwedd a mannau gwyrdd.
- Dadleuwyd y dylai'r fframwaith ystyried pob agwedd ar y defnydd o gefn gwlad a diogelu cefn gwlad a gwella bioamrywiaeth.
- Mae addysg, ac addysg awyr agored yn benodol, yn hanfodol i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'u hamgylchedd naturiol, ac mae'n eu cymell i gymryd rhan mewn gwaith cadwraeth a mabwysiadu ffyrdd o fyw sy'n fwy cynaliadwy. Nid oedd yn ymddangos bod cyfeiriad at hyn.
- Mynegwyd pryder ynghylch maint y sylw i wastraff fel pwnc o'i gymharu â dŵr a rheoli ecosystemau lleol gan y byddai hyn yn dylanwadu ar faint y sylw a roddir i wastraff gan reolwyr y corff newydd.
- Mynegwyd siom nad oes cyfeiriadau cadarnhaol at y Tirweddau Gwarchodedig na rôl partneriaeth yr Unedau AHNE ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yn enwedig o ran gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

- Nid oedd y fframwaith yn ymdrin â chyfrifoldebau sy'n ymwneud ag ecosystemau trefol a dylai fod yn ofynnol i'r corff hyrwyddo darpariaeth briodol o seilwaith gwyrdd a mannau gwyrdd trefol o ansawdd uchel mewn aneddiadau er mwyn sicrhau iechyd a lles pobl a natur.
- Awgrymwyd bod ffactor allweddol ar goll yn themâu'r canlyniadau, sef gweithio i ddatblygu economi wledig ffyniannus sy'n caniatáu i fusnesau dyfu a ffynnu mewn modd cynaliadwy.
- Un farn a fynegwyd oedd y dylid ymwrthod â'r temtasiwn i orymestyn cylch gwaith y corff.
- Mynegwyd pryder ynghylch pa mor uchelgeisiol yr oedd y canlyniadau strategol ac a fyddent yn galluogi'r corff newydd i arloesi o ddifrif wrth reoli a defnyddio adnoddau naturiol Cymru.
- Roedd nifer bach o ymatebwyr am weld mwy o bwyslais ar yr angen am sylfaen dystiolaeth well i ategu penderfyniadau.

**Cwestiwn 6: A yw'r swyddogaethau a ddisgrifir yn nhablau 1 i 3 yn grynodeb rhesymol o'r rhai sydd eu hangen? Sut y gellid eu gwella?**

## Trosolwg

Credai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod y rhestr o swyddogaethau'n rhesymol, er bod rhai wedi nodi y buasai'n well cael rhestr o'r holl ddyletswyddau statudol sy'n gymwys i'r tri chorff.

## Themâu cyffredin

*Cadwraeth Natur a Thirwedd*

Galwodd nifer o ymatebwyr am i'r corff newydd ddod yn hyrwyddwr cadwraeth natur a sicrhau bod targedau ar gyfer bioamrywiaeth wedi'u cyrraedd a bod bioamrywiaeth a bioamrywiaeth drefol yn cael eu hyrwyddo.  Roedd ymatebwyr yn galw hefyd am bwerau i atal rhywogaethau goresgynnol ac anfrodorol rhag ymledu. Galwodd rhai ymatebwyr hefyd am reoli integredig ar dirweddau ac am ddyletswydd benodol mewn cysylltiad â rheoli tirwedd.

*Hamdden a Thwristiaeth*

Roedd awgrym yn yr ymatebion y dylid ymddiried y gwaith o hyrwyddo cerdded a beicio i'r corff newydd yng nghyd-destun ecosystemau a hamdden awyr agored. Dylid cydnabod bod y defnydd o gyfleusterau hamdden awyr agored yn gyfraniad allweddol at ddatblygu economïau lleol ac y dylid rhoi mwy o sylw iddo. Mewn un ymateb, awgrymwyd y dylai'r Comisiwn Coedwigaeth barhau â'i gymorth i gyfleusterau hamdden a chwaraeon awyr agored.

Dylid cyfeirio at bwysigrwydd twristiaeth a seilwaith twristiaeth i economi Cymru.

*Pysgodfeydd mewndirol*

Yn gyffredinol credai ymatebwyr y dylai'r corff fod yn gyfrifol am ddiogelu pysgodfeydd ac am eu rheoli.  Dylai'r corff newydd fonitro'r effaith ar ansawdd dŵr o ganlyniad i gronni dŵr a thynnu dŵr o afonydd.

*Coetiroedd*

Roedd cyfeiriad mewn nifer o ymatebion at yr angen i adlewyrchu pwysigrwydd rheoli coetiroedd, gan gyflawni ymrwymiadau ehangach na'r rhai mewn amcanion amgylcheddol.  Dadleuodd un ymatebydd na ddylai'r corff newydd ymwneud â chynhyrchu a marchnata pren; dylid gadael hyn i'r sector preifat.

*Y newid yn yr hinsawdd*

Dylai'r newid yn yr hinsawdd fod yn destun targed allweddol ac roedd galwad mewn nifer o ymatebion am ddiogelu mawn, er mwyn cwrdd ag amcanion bioamrywiaeth 2020.

*Ynni*

Ymhlith y sylwadau a gafwyd roedd rhai a oedd yn cyfeirio at y ffaith bod ynni'n faes sy'n cynnwys mwy na *Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd*, a'i fod hefyd yn gymwys i reoliadau i ddiwydiant ar adnoddau, lleihau llygredd, cadwraeth, adfer a gwella ecosystemau, hybu defnydd cynaliadwy o adnoddau, rheoli dalgylchoedd  a lleihau gorlifoedd sydyn drwy reoli cynefinoedd. Mewn ymatebion eraill galwyd am gwrdd â thargedau ar gyfer ynni gwynt a chynhyrchu ynni ac am gynnwys swyddogaethau hefyd ar gyfer cynghori ynghylch ceisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Cafwyd sylwadau hefyd a oedd yn nodi bod angen cyfeirio yn y swyddogaeth sy'n ymwneud â rheoli'r ystad goedwigoedd yn Nhabl 1 at bwerau i lesio tir ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

*Sylwadau am Dablau 1 i 3*

Roedd tri thabl yn y ddogfen ymgynghori. Roedd Tabl 1 yn crynhoi'r swyddogaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol neu sy'n caniatáu i'r corff wneud gwaith.  Roedd Tabl 2 yn dangos y pwerau cyffredinol sy'n galluogi'r corff i gyflawni ei swyddogaethau mewn ystod eang o'i waith. Roedd Tabl 3 yn rhestru dyletswyddau'r corff i ystyried materion wrth gyflawni ei swyddogaethau.  Cafwyd sylwadau penodol gan nifer o ymatebwyr am y tablau hyn, gan gynnwys:

- Mae angen cyfeiriadau gwell yn Nhabl 1 at gysylltu hamdden, addysg ac iechyd.
- Tabl 1: Rheoli coetiroedd, bioamrywiaeth, diogelu rhag llifogydd a diogelu'r arfordir. Dylid symud y cyfrifoldebau economaidd sydd yn Nhabl 1 i Dabl 3.
- Tabl 1 'Hyrwyddo'r defnydd o gefn gwlad gan bawb a'r buddiannau iechyd a ddaw yn ei sgîl': dylid newid y geiriau 'o gefn gwlad' yn 'o'r amgylchedd awyr agored, tir a môr'.
- Nid yw Tabl 1 yn gwahaniaethu rhwng dyletswyddau a swyddogaethau disgresiwn.
- Dylid cynnwys cymorth gweinyddol ac ariannol i fforymau mynediad lleol yn Nhabl 1.
- Yn Nhabl 1 pwynt 1 dylid rhestru 'costau a buddion' i'r amgylchedd, pobl a sefydliadau.
- Dylai Tabl 1 pwynt 3 fod yn amgylcheddol, nid yn ecolegol.
- Dylai Tablau 1 a 3 gynnwys y gallu i ddeall achosion ansawdd dŵr, sicrhau bod penderfyniadau am gyflenwi gwasanaethau'n cael eu gwneud ar sail dadansoddiad cost a budd sy'n ystyried pob math o lygredd, sicrhau bod mesurau a gymerir yn gynaliadwy yn y tymor hir, sicrhau bod yr effaith ar filiau dŵr cwsmeriaid yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau,

darparu canllawiau ynghylch y newid yn yr hinsawdd a rheoli adnoddau, gweithio ar draws ffiniau gweinyddol, rheoli draenio a dŵr wyneb yn gynaliadwy a defnyddio dŵr yn gynaliadwy ym mhob sector.

- Tablau 1 a 3: dylid sôn am derfynau a thargedau rhyngwladol, rheoli adnoddau, mwy o addysg i'r cyhoedd am yr amgylchedd, naws fwy rhagweithiol, nid diogelu'n unig, ond gwella.
- Dylai Tabl 2 gynnwys cyfeiriad at ddatblygu partneriaethau strategol â chyrff eraill lle mae budd i'r ddwy ochr, ac mae angen mwy o wybodaeth am yr holl feysydd.
- Tabl 3: mae angen cynnwys buddion y tu allan i'r farchnad wrth sôn am gost a budd.
- Tabl 3: prawfesur polisïau i sicrhau y byddant yn gynaliadwy yn y dyfodol.
- Mae angen cyfeiriadau yn Nhabl 3 at y rhan bwysig y mae daeareg wedi'i chwarae yn niwydiannau cenedlaethol Cymru: cloddio aur, glo, copor a haearn, yn ogystal â dur a'r defnydd o siâl a nwyeiddio glo yn y dyfodol a'u hychwanegu i Dabl 1.
- Nid yw'r tablau'n cynnig awgrymiadau ynghylch y swyddogaeth o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae hyn yn ddiffyg.
- Dylid ehangu'r cyfeiriadau yn Nhabl 2 at droseddau amgylcheddol a throseddau bywyd gwyllt i gynnwys pwerau presennol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn y maes hwn. Yn benodol, dylid cynnwys y pwerau i gynghori'r heddlu. Awgrymwyd mewn un ymateb y gallai hefyd fod yn ddoeth rhoi dyletswydd i ymchwilio i droseddau amgylcheddol a bywyd gwyllt.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Dylid nodi'n glir beth yw trefniadau ymgynghori'r corff newydd ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd o dan y Ddeddf Gynllunio.
- Mae angen mwy o ddirprwyo a lleoliaeth.
- Mae cefnogaeth i fenter Coed Cymru.
- Dylai cymorth grant fod ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith ecolegol, rhedeg Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Chynlluniau Rheoli.
- Dylid datblygu'r defnydd o 'Gynllunio Gofodol'.
- Mae angen mwy o eglurhad ynghylch cipio, coladu a dosbarthu data.
- Dylid mabwysiadu'r pwerau mewn modd hyblyg, gan ganiatáu i'r corff ymaddasu i newidiadau sy'n deillio o integreiddio swyddogaethau'r tri chorff presennol.
- Pryder ynghylch y posibilrwydd o golli arbenigedd.
- Pryder y bydd rhoi pwerau'r corff newydd i sefydliadau allanol yn arwain at breifateiddio'r sector hwn.
- Mae angen egluro mai erydu arfordirol ac nid erydu'n gyffredinol sy'n dod o dan y corff newydd.
- Dylai cymorth grant gynnwys cyrff cyhoeddus eraill a chyrff y trydydd sector.
- Dylid tynnu sylw at bwysigrwydd ymchwil.

- Mae angen mwy o gyfeiriadau at swyddogaethau a phwerau fel prynu gorfodol, mynediad i dir, ymgysylltu â rhanddeiliaid, pwerau i roi grantiau (gan gynnwys y trydydd sector).
- Dylid cynnwys tirweddau dynodedig o dan nifer o benawdau.
- Dylid nodi ym mhwerau'r corff newydd nad yw'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn bodoli bellach a bod adran yn yr Arolygiaeth Gynllunio wedi cymryd ei le.
- Dylid cyfeirio at hyrwyddo mynediad i gefn gwlad ac at fannau gwyrdd trefol o ansawdd uchel. Gan fod 80% o ddinasyddion Cymru'n byw mewn trefi a dinasoedd, rhaid i'r corff roi sylw hefyd i ecosystemau trefol, ac nid i'r agwedd wledig yn unig.
- Nid oedd yr enghreifftiau'n cynnwys diwydiannau cloddio, yr amgylchedd morol, effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar y tir a morweddau, geoamrywiaeth: ei heffaith ar weithgareddau awyr agored, ei hymateb i lifogydd ac erydu'r arfordir, ei rôl fel sylfaen i dirweddau, y rhan sydd i Gynlluniau Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol, RIGS, y SoDdGA daearegol a gwarchodfeydd natur cenedlaethol a lleol wrth hybu ymwybyddiaeth o geoamrywiaeth.
- Dylid ystyried geoamrywiaeth ochr yn ochr â bioamrywiaeth hefyd.
- Mae angen cywiro'r pwyslais mawr ar swyddogaethau dyn-ganolog ar draul swyddogaethau diogelu'r amgylchedd.
- Mae angen darparu mwy o wybodaeth am gwmpas swyddogaethau arfaethedig y corff newydd i randdeiliaid fel y byddant yn deall ei flaenoriaethau'n well.
- Dylid ystyried dull o ymgeisio am nifer o drwyddedau ar un ffurflen gais fel ffordd o hyrwyddo effeithlonrwydd.
- Byddai matrics sy'n dangos y rhyngweithio rhwng swyddogaethau'r tri chorff presennol cyn ac ar ôl yr uno yn rhoi mwy o eglurhad.
- Mae nifer o ymatebwyr wedi awgrymu cynnwys polisïau i ehangu'r ystad goedwigaeth gyhoeddus neu roi mwy o bwyslais ar ddefnyddio coedwigoedd conwydd ar gyfer cynhyrchu.
- Dylai'r corff newydd gadarnhau'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a'u rhoi ar waith gan y byddai hyn yn hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Nid oes sôn am sut y bydd y corff newydd yn cydweithio ag Asiantaethau Iechyd Cyhoeddus. Mae angen eglurhad ar y cytundebau presennol ar gyfer cydweithio.
- Pryder ynghylch y diffyg pwyslais ar ymateb i ddigwyddiadau.
- Dim sôn am y ffordd y gellid hybu'r swyddogaethau newydd dros amser.
- Dylai'r corff fod â thîm gorfodi penodedig ar gyfer pysgodfeydd.
- Mae angen twristiaeth sy'n ecolegol gynaliadwy.
- Dylai'r corff gynghori Llywodraeth Cymru yn rhagweithiol am ddefnydd tir priodol mewn ardaloedd trefol a mynyddig, gan fod hyn yn niweidio amgylcheddau dŵr.
- Dylai'r corff ymateb i bryderon am broblemau sy'n ymwneud â mawn a llunio canllawiau clir sy'n gyson â chanllawiau gwledydd eraill.
- Ni ddylid ymestyn pwerau i godi tâl am wasanaethau sydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd. Mae angen cadarnhau'r egwyddor o beidio â rhoi pwerau ychwanegol i'r corff gan y byddai hyn yn rhoi mwy o allu iddo

godi tâl am wasanaethau – yn enwedig y rheini sy’n ymwneud â’i rôl fel ymgynghorai statudol.

- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar faterion iechyd a lles.
- Mae angen mwy o bwyslais ar sgiliau, hyfforddi a menter gan fod perygl o roi gormod o bwyslais ar y meysydd amgylcheddol yn y model datblygu cynaliadwy.
- Mae’n ymddangos nad oes sôn yn y cynigion am y rheidrwydd masnachol yng nghefn gwlad.
- Prin oedd y wybodaeth yn yr ymgynghoriad am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a safleoedd dynodedig.  Dylid cael cynrychiolaeth ehangach o’r gymuned fusnes ar bwyllgorau sy’n delio â’r rhain o fewn y corff.
- Dylid ehangu’r rôl monitro amgylcheddol i gynnwys monitro uniongyrchol ar fathau penodol o ddatblygu neu effeithiau amgylcheddol e.e. yr effeithiau o gael nifer o ffermydd gwynt gyda’i gilydd.

**Cwestiwn 7: Beth yw eich barn ar y cynigion ar gyfer newid swyddogaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Trwyddedu Morol a Bywyd Gwyllt ac Iechyd Coed a Phlanhigion? Sut y gellid eu gwella?**

### Trosolwg

Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn gefnogol i'r newidiadau mewn swyddogaethau trwyddedu morol a bywyd gwyllt ac iechyd coed a phlanhigion. Byddai hyn yn arwain at system fwy unedig ac yn rhoi mwy o eglurder i fusnesau.

Mynegwyd amrywiaeth o farnau am drosglwyddo polisi i Lywodraeth Cymru.

Dadleuodd nifer o ymatebwyr o blaid cynnwys pysgodfeydd môr a chynllun Glastir yn y corff newydd a hefyd dros ymestyn y cynigion i gynnwys sefydliadau eraill fel CADW.

### Themâu cyffredin

*Trwyddedu Morol a Bywyd Gwyllt*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid trosglwyddo trwyddedu morol a hyd yn oed cynllunio morol i'r corff newydd, a gweld Gweinidogion Cymru yn cadw swyddogaeth apeliadol. Mynegwyd rhywfaint o bryder bod diffyg dealltwriaeth o'r goblygiadau ehangach ar gyfer cynllunio, rheoleiddio a rheoli'r amgylchedd morol.

Roedd rhai ymatebwyr yn llai cefnogol. Un farn a fynegwyd oedd y byddai rhoi trwyddedu morol o dan ofal y corff newydd yn gallu peri pryder o ran tryloywder. Roedd un ymatebydd o'r farn bod y cynigion ar gyfer trwyddedu'n anghyson â'r egwyddor o 'un pwynt cyswllt' sydd wedi'i hyrwyddo yng ngweddill y swyddogaethau sy'n destun i'r ymgynghoriad. Dywedodd ymatebydd arall y gellid gwella'r swyddogaethau presennol drwy dryloywder a chraffu.

Dylid sefydlu a chynnal rhyng-gysylltiad rhwng prosesau cynllunio môr a thir.

*Iechyd Coed a Phlanhigion*

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y rôl bwysig sydd gan ymchwil i goedwigoedd. Mae angen ymateb yn gryfach i glefydau a phlâu. Cafwyd un sylw a oedd yn awgrymu y dylai rhywfaint o'r cyfrifoldeb dros iechyd planhigion gael ei gadw gan gyrff arbenigol llai fel yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd, er bod ymatebydd arall o'r farn y dylid rhoi'r swyddogaethau dros iechyd coed a phlanhigion i un corff ac nid eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff newydd. Y cyngor mewn un ymateb a gafwyd oedd y dylid cadw cysylltiadau â gwasanaethau a rennir yng Nghomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr sy'n ymwneud ag iechyd coed gan nad yw'r ffin yn rhwystr i glefydau a phlâu.

*Glastir*

Roedd galwad yn nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad am reoli cynllun Glastir gan y corff newydd.

*Pysgodfeydd môr*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion oddi wrth y sector pysgodfeydd yn argymell rhoi cyfrifoldeb dros bysgodfeydd môr a mewndirol, gan gynnwys swyddogaethau rheoli a gorfodi morol, i'r corff newydd fel y gellir cael cynllun cydgysylltiedig i ddiogelu bywyd gwyllt y môr. Barn ymatebwyr eraill oedd y dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i bwysigrwydd swyddogaethau amaeth-amgylcheddol a physgodfeydd môr wrth gyflawni rhwymedigaethau Ewropeaidd o ran strategaethau ar gyfer cynefinoedd, adar a'r amgylchedd morol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r swyddogaethau hyn, bydd angen cydweithio'n agos â'r corff newydd i gyflawni'r nodau hyn.

*Polisi*

Cytunai rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru gadw'r pŵer i osod polisi strategol ac y dylai'r corff newydd fod yn gyfrifol am ei weithredu.

Roedd pryder y byddai trosglwyddo polisi i Lywodraeth Cymru yn gallu gwanhau ansawdd y polisi hwnnw a'r gallu i ymateb wrth ei lunio. Pryder pellach oedd y byddai diffyg ffocws yn y corff newydd os nad oedd yn gyfrifol am bolisi.

Mynegwyd pryder gan ymatebwyr eraill ar sail y ddadl bod y gallu i lunio polisi da yn galw am staff sydd â gwybodaeth ymarferol a gweithredol. Rhaid i'r rheini sy'n ymwneud â pholisi coedwigaeth yn Llywodraeth Cymru fod yn weithwyr proffesiynol sy'n deall materion coedwigaeth yn drylwyr.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid trosglwyddo camlesi a phwerau rheoli amgylcheddol i'r corff newydd.
- Mae'r defnydd o un corff i leihau gwrthdaro buddiannau'n galonogol.
- Pryder y bydd llai o ddylanwad ar bolisi gan y corff newydd.
- Pryder ynghylch ariannu.
- Dylid rhannu'r cyfrifoldeb dros drwyddedu i reoli ceirw gwyllt gan roi swyddogaethau polisi i Lywodraeth Cymru a swyddogaethau gweithredol i'r corff newydd.
- Rhaid i'r corff newydd egluro ei safbwynt ar fynediad a mordwyo ar afonydd yng Nghymru, yn enwedig afonydd sy'n croesi'r ffin.
- Dylai'r corff newydd feithrin perthnasoedd strategol â "phartneriaid y gellir ymddiried ynddynt" i leihau gweinyddu.
- Rhaid i'r corff newydd sicrhau na fydd gwahanu swyddogaethau polisi a gweithredu'n arwain at dorri'r cysylltiad rhwng llunwyr polisi ac ymarferwyr .
- Mwy o sylw i blâu a chlefydau sy'n effeithio ar blanhigion.

- Dylai trwyddedu i warchod moch daear barhau'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru.
- Dylid codi 'muriau diadlam' i sicrhau na fydd gwrthdaro rhwng swyddogaethau masnachol a rhai sy'n ymwneud â thrwyddedu.
- Dylid rhoi swyddogaethau polisi i'r corff newydd fel y gellir cynllunio ymhellach na'r cylch gwleidyddol pum mlynedd.
- Mae nifer o ymatebwyr wedi argymell cydweithio'n agos â Chomisiynau Coedwigaeth Lloegr a'r Alban, fel modd i leihau dyblygu ar waith a hyrwyddo effeithlonrwydd.
- Dylid ymgynghori ag undebau llafur a rhanddeiliaid eraill wrth drosglwyddo swyddogaethau.
- Dylai'r system newydd ganolbwyntio ar egwyddorion cyffredinol yn ganolog gan sicrhau sensitifrwydd i wybodaeth a phrofiad mewn ardaloedd lleol.
- Gallai fod yn ddoeth cadw'r cyfrifoldeb dros drwyddedu morol yn ôl yn ystod cyfnod cynnar y corff newydd i sicrhau na fydd yn gorymestyn, gan gadw'r posibilrwydd o roi pwerau o'r fath iddo ar ôl adolygiad pellach o'i allu.

**Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer cydgysylltu buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn ymchwil amgylcheddol? Sut y gallem eu gwella?**

## Trosolwg

Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn ystyried ei bod yn bwysig i'r corff newydd fod â sylfaen wyddonol gadarn, a barnwyd bod hyn yn hanfodol i wireddu uchelgais y corff. Ar y cyfan, cytunai ymatebwyr â'r cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gydgysylltu buddsoddiad mewn ymchwil amgylcheddol. Er hynny, yn gyffredinol, credai ymatebwyr y dylai'r corff newydd gael hyblygrwydd i ddiffinio a chyflawni ei ymchwil ei hun.

## Themâu cyffredin

*Cydgysylltu ymchwil gan Lywodraeth Cymru*

Roedd barn gymysg am y cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gydgysylltu buddsoddiad mewn ymchwil amgylcheddol. Roedd nifer mawr o ymatebwyr o blaid y cynnig. Ymysg y rhesymau yr oedd y farn ei bod yn hollbwysig peidio â dyblygu gwaith. Yn ogystal â hyn, mynegwyd y farn y byddai'r dull ecosystemau'n galw am brosiectau cwbl integredig ar raddfa fawr â chyllideb sylweddol a fyddai'n cynnwys gwahanol sectorau ac felly mai Llywodraeth Cymru oedd yn y lle gorau i gydgysylltu ymchwil o'r fath. Er hynny, hyd yn oed os oedd ymatebwyr o blaid y cynnig hwn, roedd barn gyffredinol na ddylai hyn atal y corff rhag comisiynu ei ymchwil ei hun.

Ym marn ymatebwyr sy'n anghytuno â'r cynnig, er y gallai Llywodraeth Cymru gydgysylltu ymchwil, dylai'r corff newydd allu comisiynu ei ymchwil ei hun heb gydsyniad Llywodraeth Cymru er mwyn cynnal ei rôl wrthrychol, ddiduedd ac annibynnol.

Roedd awgrym mewn nifer o ymatebion eraill y dylai'r corff newydd gael hyblygrwydd i ddiffinio a chyflawni ei raglen ymchwil ei hun, er bod cydnabyddiaeth y dylid integreiddio'n agosach â Llywodraeth Cymru. Roedd pryder y gellid colli annibyniaeth y corff newydd os câi ymchwil ei chynllunio a'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru ac, o ganlyniad, na fyddai'r corff newydd yn gallu gwireddu'r dyhead i fod yn sefydliad annibynnol sy'n seilio ei waith ar dystiolaeth. Cafwyd awgrym y gallai'r corff newydd ddatblygu model Comisiwn Coedwigaeth Cymru lle mae blaenoriaethau ymchwil yn cyfrannu at waith ymarferol yn lleol. Ystyriaeth bellach oedd y byddai comisiynu ymchwil gan un corff yn gallu arwain ar ymchwil fwy cyfyng, tra byddai cynnwys nifer o gyrff gwahanol yn ffordd o gael canlyniadau mwy annibynnol a ffurfio barn gynhwysfawr. Un pryder ychwanegol oedd y gallai ymchwil gael ei hysgogi gan bolisi (o'r brig i lawr) gan arwain at ddiystyru rhai cyfleoedd ymchwil. Teimlai rhai ymatebwyr y gallai'r corff gael ei adael ar ôl gan asiantaethau tebyg os nad oedd yn gallu comisiynu ei ymchwil ei hun.

Roedd y farn am y cynnig i gael un fframwaith ar gyfer ymchwil yn gefnogol at ei gilydd, er bod ymatebwyr yn teimlo na ddylai hyn fod yn rhy fiwrocrataidd neu feichus.

*Ymchwil a gyflawnir yng Nghymru*

Roedd gwahaniaeth barn hefyd ynghylch a ddylid cynnal ymchwil o fewn Cymru, neu ar draws ffiniau. Y farn ar y naill law oedd y dylid cynnal ymchwil yng Nghymru er mwyn meithrin galluoedd, ac mai dim ond os yw'r costau'n uchel neu'r gwaith yn arbenigol iawn y dylid ei gynnal y tu allan i Gymru. Dywedodd un ymatebydd y byddai hyn yn hwb i swyddogaethau adnoddau naturiol yng Nghymru a hefyd yn creu cyfleoedd ac arbenigedd. Ar y llaw arall, credai rhai ymatebwyr y dylid cydgysylltu'n agosach â Lloegr a'r Alban, yn enwedig ar faterion fel iechyd coed a phlanhigion. Credwyd ei bod yn bwysig peidio â cholli gwaith ymchwil a datblygu sy'n cael ei wneud yn Lloegr ar hyn o bryd.

*Themâu cyffredin eraill*

Roedd nifer o ymatebwyr yn cydnabod bod arbenigedd sylweddol eisoes yn y tri chorff, y dylid ei gadw yn y corff newydd. Byddai hyn yn neilltuol o berthnasol o ran deall gwaith ymchwil

Nododd nifer o ymatebwyr y dylai'r corff newydd ddefnyddio'r labordy yn Llanelli yn wasanaeth labordy penodedig.

Un thema gyffredin oedd bod angen parhau ag ymchwil sy'n cael ei chyflawni gan y sector gwirfoddol ar hyn o bryd. Byddai cymorth grant yn galluogi'r corff i gael arbenigedd sydd gan y sector gwirfoddol.

Mater pellach a godwyd gan nifer o ymatebwyr oedd y dylid darparu cyllid digonol i sicrhau bod yr ymchwil a gyflawnir yn ddibynadwy.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylid cael mwy o gydgysylltu rhwng prifysgolion Cymru ym maes ymchwil.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Gellid cydgysylltu'n well â chyrff cyhoeddus, preifat ac elusennol eraill sy'n cynnal ymchwil.
- Nid oedd y ddogfen ymgynghori'n adlewyrchu rôl y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur o ran ariannu a chydgysylltu gwaith ymchwil a monitro ledled y DU.
- Rhaid hysbysebu cyfleoedd i ariannu ymchwil yn eang a rhaid iddynt fod ar gael i sefydliadau ymchwil cyhoeddus a phreifat.
- Nid yw'r cynigion yn glir. Mae'n hollbwysig cydgysylltu buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn ymchwil amgylcheddol, yn enwedig mewn cysylltiad â phlâu a chlefydau coed a phlanhigion.

- Amheuon ynghylch a yw Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru yn gymwys i gydgysylltu ymchwil ar ran y corff newydd.
- Dylid ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol. Mae rhan i'w chwarae gan y swyddfeydd ardal presennol wrth gasglu tystiolaeth, ac ni ddylid ei gwanhau.
- Teimlwyd nad oedd sylw wedi'i roi i wyddoniaeth seiliedig ar y dinesydd fel monitro amgylcheddol drwy'r RSPB ac y gallai hyn fod yn swyddogaeth i'r corff newydd.
- Gellid cael 'panel arbenigwyr' o ddisgyblaethau perthnasol.
- Roedd angen rhaglen fonitro gadarn.
- Disgwylir i ddatblygwyr prosiectau mawr gynnal a thalu am arolygon amgylcheddol y gellir eu defnyddio i wella gwybodaeth sylfaenol ac sydd heb fod yn benodol i'r prosiect dan sylw. Felly ni ddylai'r corff geisio defnyddio amodau ar drwyddedau a cheisiadau cynllunio fel hyn, oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol.
- Mewn ardaloedd amgylcheddol sensitif, yn enwedig lle mae nifer o weithgareddau diwydiannol yn agos iawn i'w gilydd, gallai fod yn fanteisiol sefydlu grwpiau anstatudol lleol i gydgysylltu monitro amgylcheddol.
- Credai rhai ymatebwyr nad oedd y pwyslais ar ymchwil amgylcheddol wedi'i ystyried yn llawn yn y ddogfen ymgynghori.
- Mae angen i bob dull gwyddonol fod yn wrthrychol a dylid ystyried pob un yng nghyd-destun profiad a gwybodaeth o ffynonellau ehangach.
- Dylai gael ei ategu gan dystiolaeth a bod yn brif sylfaen i'r amgylchedd yng Nghymru.
- Rhaid cadw arbenigaethau gwyddonol yn y corff newydd e.e. dŵr, coedwigaeth, cadwraeth natur, gwyddorau cymdeithasol.
- Dylid ymgynghori ar restr o flaenoriaethau ymchwil a'i chyhoeddi mor fuan â phosibl.
- Mae angen asesu'r perygl o golli cysylltiadau ymchwil o ganlyniad i ffurfio'r corff newydd.
- Dylai'r holl ymchwil gael ei chydgysylltu a'i chysylltu â'r gymuned wyddonol ehangach ar sail yr egwyddor o ddefnyddio arian cyhoeddus i dalu am ymchwil unwaith a'i defnyddio lawer gwaith.
- Ceir manteision mawr o barhau i gymryd rhan mewn gwaith Ymchwil i Goedwigoedd ledled y DU: maent yn arwain y byd mewn ymchwil sy'n ymwneud â choedwigoedd, nid yn unig o ran ymchwil i blâu a chlefydau coed ond hefyd mewn cysylltiad â materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Darparu data wedi'u cyfuno a'u dadgyfuno ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol.
- Dylid cysylltu ymchwil ag anghenion mewn meysydd penodol fel diwydiant, iechyd a chymdeithas.
- Bydd y dull ecosystemau o gymorth i ganfod bylchau mewn gwybodaeth.
- Llunio Crynhoad Blynyddol o Ymchwil Amgylcheddol yng Nghymru.
- Arwain mewn cyfarfod blynyddol i ymarferwyr gwyddonol.
- Nid yw data'n cael eu rhannu'n ddigonol ar hyn o bryd rhwng y tri chorff presennol a dylid hyrwyddo hyn yn y corff newydd.
- Dylid ystyried natur ddynamig yr amgylchedd morol wrth gasglu data llinell sylfaen.

- Dylai allu comisiynu ymchwil ynghylch effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithrediadau'r corff newydd.
- Dylai'r cyfrifoldeb dros wireddu manteision o ran busnes, ymgysylltu â chymunedau a'r amgylchedd gael ei gadw gan Lywodraeth Cymru. Bydd manteision pendant i Lywodraeth Cymru o ran y gallu i ddefnyddio ystad goetiroedd Llywodraeth Cymru a bydd hyn yn rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer cyflawni ei pholisïau a'i hamcanion.
- Defnyddio technoleg a TG i'r graddau mwyaf posibl i reoli ymchwil a chipio data.
- Mae tystiolaeth wyddonol ddibynadwy'n sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau a datblygu polisïau a strategaethau.
- Dylid cynnal ymchwil mewn ffordd strwythuredig a dylai gynnwys pob agwedd ar y gweithgareddau mewn corff rheoli tir sengl gan gynnwys diwydiant a busnes.
- Creu gwell cysylltiadau â phrifysgolion a sefydliadau addysgol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill a rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth.
- Dylid ystyried defnyddio dulliau 'gwyddoniaeth y dinesydd' gan fod nifer o arbenigwyr mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu fel hyn, yn ogystal â chasglu/monitro tystiolaeth sy'n ddefnyddiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ecosystemau.
- Dylid ei gysylltu â'r gwaith ar Bapur Gwyrdd Cynnal Cymru Fyw a'i flaenoriaethu'n unol â hynny.
- Adnabod bylchau mewn ymchwil a gwybodaeth mewn meysydd allweddol (e.e. cymdeithasol, economaidd, busnes), pennu manteision mewn meysydd ymchwil allweddol sy'n cydweddu â strategaethau cyflenwi Cymru Fyw.
- Dylid ategu gwerth Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru.
- Byddai dull mwy cydgysylltiedig o weithredu'n creu mwy o gysondeb, yn gwella diogelwch a chydnerthu ac yn rhoi gwell dealltwriaeth o faterion sectoraidd.
- Sut y pennir blaenoriaethau ymchwil: ai drwy grŵp rhanddeiliaid sy'n cynrychioli gwahanol fuddiannau?
- Cael y manteision mwyaf posibl o'r holl ymchwil a gomisiynir ac osgoi dyblygu.
- Sicrhau'r cydweithredu a synergedd mwyaf posibl mewn partneriaeth â phartïon eraill (gan gynnwys y sector preifat, e.e. cwmnïau ynni adnewyddadwy) gan ymddiddori'n bennaf yn y rheini sydd â rhan mewn rheoleiddio.
- Osgoi gorgyffwrdd er mwyn osgoi dyblygu a thargedu adnoddau cyfyngedig yn well (yn enwedig rhai ariannol).

**Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'r cynigion ynghylch statws, trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y corff newydd? A allem wella'r trefniadau arfaethedig mewn unrhyw ffordd?**

## Trosolwg

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn croesawu'r cynigion ynghylch statws, trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y corff newydd. Cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr y dylid sefydlu'r corff newydd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n annibynnol ar lywodraeth. Teimlwyd bod hyn yn hanfodol er mwyn cadw hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Mynegwyd y farn hefyd y dylai'r corff allu cynghori a herio Llywodraeth Cymru.

Roedd nifer bach o ymatebwyr yn amau a fyddai'r cynigion yn creu corff a fyddai'n ddigon annibynnol, gan y byddai Gweinidogion yn meddu pwerau Cyfarwyddo ac yn cymryd rhan wrth gytuno ar gynlluniau ac amcanion ar gyfer y corff.

## Themâu cyffredin

*Trefniadau llywodraethu*

Mynegwyd y farn y dylai'r broses o benodi'r uwch-reolwyr a'r bwrdd fod yn agored ac mor dryloyw â phosibl.

Ar y cyfan, cytunai ymatebwyr â'r cynigion ynghylch maint y bwrdd ac awgrymodd nifer ohonynt y dylid cael o leiaf 12 o aelodau. Awgrymodd ymatebwyr eraill fod angen mwy o aelodau er mwyn gofalu am yr ystod eang o fuddiannau. Roedd barn ar y llaw arall na ddylai'r bwrdd fod yn rhy fawr gan y gallai hynny beri iddo fod yn anodd ei reoli ac yn aneffeithiol.

Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r ymrwymiad i ddenu aelodau anweithredol y bwrdd o ystod eang o sectorau er mwyn sicrhau cydbwysedd. Cafwyd nifer o awgrymiadau am wahanol sectorau y gellid denu aelodau ohonynt, gan gynnwys y sectorau gwirfoddol ac elusennol, llywodraeth leol, parciau cenedlaethol, undebau llafur, sectorau addysg a chymdeithasol, y sector coedwigaeth a'r sector cynhyrchion coedwig, pysgodfeydd, cadwraeth a bioamrywiaeth.

Mynegwyd y farn gan nifer o ymatebwyr y bydd y Prif Weithredwr newydd yn allweddol o ran sicrhau bod y tri chorff a fydd yn ffurfio'r corff newydd yn cael eu trin yn deg. Dylai'r corff gyflogi Prif Weithredwr cryf ac ymroddedig a bwrdd cryf, gwybodus ac annibynnol. Un farn bellach oedd bod angen i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr orfodi diwylliant newydd ar y corff, felly bydd arweinyddiaeth gryf yn hollbwysig.

*Atebolrwydd*

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr y dylai'r corff fod yn dryloyw ac yn atebol i'r cyhoedd. Roedd angen llinellau atebolrwydd clir. Mynegwyd y farn hefyd na ddylai trefniadau llywodraethu fod yn rhy ganoledig, fel y gallant ymgysylltu â chymunedau a bod yn ymatebol i lefelau rhanbarthol a lleol. Credwyd bod atebolrwydd lleol yn bwysig.

Awgrymodd rhai ymatebwyr nad oedd y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer craffu gan y cyhoedd wedi'u hegluro'n llawn er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd. Roedd angen mwy o fanylion ynghylch sut y byddai'r corff yn cael ei ddal yn atebol.

Un o'r awgrymiadau oedd sefydlu pwyllgor statudol i oruchwylio gwaith y corff. Cymerwyd y byddai rôl i Swyddfa Archwilio Cymru. Awgrym pellach oedd y dylai'r corff gyflwyno adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Mynegwyd y farn y byddai'r Ddogfen Fframwaith a'r Cynllun Dirprwyo yn bwysig o ran sicrhau perthynas weithio dda rhwng y corff a Llywodraeth Cymru. Er hynny, credai rhai ymatebwyr y dylai natur y berthynas rhwng y corff a Llywodraeth Cymru gael ei gwneud yn fwy eglur.

*Llywodraethu rhyngwladol a thrawsffiniol*

O ran y cynigion ynghylch ymgysylltu rhyngwladol, credai nifer o ymatebwyr ei bod yn hollbwysig bod y corff newydd yn cael ei gynrychioli'n glir ar y llwyfan rhyngwladol, yn enwedig ar lefel yr UE, ond y tu hwnt i hynny hefyd. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y ddogfen ymgynghori'n bychanu'r rôl hon.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod angen sefydlu prosesau rhynglywodraethol clir a ffurfiol â Llywodraeth y DU. Cyfeiriodd nifer bach o ymatebwyr at yr angen i adolygu trefniadau trawsffiniol yn rheolaidd.

Nododd rhai ymatebwyr fod mwy o bwyslais ar bwysau masnachol nag ar reoli'r amgylchedd cyfan.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Mae'r datganiad y bydd aelodau'n cael eu penodi i'r bwrdd ar sail 'gallu' yn rhy agored. Awgrymwyd y gellid seilio hyn ar y gofyniad am wybodaeth bersonol o'u maes pwnc, sgiliau negodi a chyfathrebu a hanes profedig o brofiad a chyflawniad wrth arfer nifer o swyddogaethau a gweithio mewn timau ym maes diogelu, rheoleiddio a rheoli'r amgylchedd, a gorau oll os oedd hynny yng Nghymru.
- Dylai aelodau bwrdd unigol ymgymryd â'r rôl gorfforaethol o fod yn 'hyrwyddwr' mewn maes pwnc penodol.
- Gallai'r corff fanteisio ar brofiad awdurdodau lleol a Byrddau Gwasanaethau Lleol wrth sicrhau ymgysylltu ehangach â'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau.

- Dylid cadarnhau drwy Bwyllgor Archwilio'r corff a'r trefniadau archwilio blynyddol fod systemau ar waith i sicrhau bod y bwrdd yn cael yr holl wybodaeth berthnasol a barn gan staff perthnasol. Dylid cael trefniadau tebyg ar gyfer archwilio a chraffu ar drefniadau hunandrwyddedu, ar y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac ar gyngor cadwraeth.
- Rhaid parhau â'r ddeialog dda bresennol â chyrff allanol. Fel arall, gallai hyn arwain at wanhau'r arbenigaeth a'r gallu i gyflawni ar fwrdd y corff newydd.
- Dylid gwahaniaethu rhwng 'coedwigaeth' a 'chynhyrchion coedwigaeth'.
- Efallai y bydd angen sefydlu partneriaethau arbenigol lleol i gydgysylltu polisi a gweithredu'n fwy effeithiol, yn hytrach na grwpiau 'Cymru gyfan'.
- Dylid ystyried sefydlu gweithdrefnau i ddelio â pherfformiad gwael a methiant i gyrraedd targedau.
- Dylai Prif Weithredwr y corff fod yn ddiduedd a heb fod wedi'i gyflogi gan yr un o'r tri chorff presennol ar hyn o bryd.
- Dylai'r bwrdd gael pob hyder yn y Cadeirydd, felly dylai allu ei benodi.
- Pryder bod yr amserlen ar gyfer sefydlu'r corff cysgodol wedi llithro.
- Mae angen cyflwyno mwy o wybodaeth am y dull o ddewis y bwrdd a'r Prif Weithredwr. Mae pryder y gallai penodiadau gael eu gwneud ar sail wleidyddol yn hytrach na phenodi unigolion sydd â gwybodaeth neu brofiad arbenigol yn eu meysydd.
- Mae angen cynrychioli buddiannau busnesau yn glir yn nhrefniadau llywodraethu'r corff.
- Dylai'r corff ystyried sefydlu cofrestr amgylcheddol (fel yr un yn Ontario, Canada) sy'n cynnwys cynigion a phenderfyniadau ar gyfer polisïau a deddfwriaeth sydd ag arwyddocâd amgylcheddol.

**Cwestiwn 10: A oes gennych unrhyw farn ar y dull gweithredu yr ydym yn ei gynnig ar gyfer y corff newydd mewn perthynas â'i drefniadau i randdeiliaid? Sut y gallem wella'r dull gweithredu?**

## Trosolwg

Roedd croeso ar y cyfan i'r cynigion ynghylch trefniadau i randdeiliaid.

Y farn yn gyffredinol oedd bod angen dulliau gweithredu hyblyg a bod ymgysylltu lleol yn hanfodol. Dylid gwella'r trefniadau presennol.
Nododd ymatebwyr ei bod yn bwysig ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid a bod llwyddiant y corff newydd yn dibynnu ar drefniadau cadarn i randdeiliaid. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod rhaid datblygu unrhyw drefniadau ar y cyd â rhanddeiliaid.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen am ymgysylltu lleol â rhanddeiliaid, gan gynnwys cymunedau, y trydydd sector ac awdurdodau lleol. Mynegwyd y farn hefyd fod angen cynnwys rhanddeiliaid wrth sefydlu'r corff. Roedd angen mwy o fanylion am y ffordd y bydd rhanddeiliaid yn cydgysylltu, yn rhyngweithio ac yn cyfathrebu â'r corff ynghylch meysydd allweddol fel y modd y byddai'r corff yn cyflawni ei amcanion ar lefel leol ac yn rhyngweithio â'r cyrff presennol a mecanweithiau sefydledig. Dadleuwyd o blaid dull 'pobl-ganolog' o weithredu.

Yn benodol, roedd ymatebwyr sydd â buddiant mewn pysgodfeydd yn pwysleisio'r angen am sicrhau bod dulliau effeithiol o ymgysylltu wedi'u sefydlu o'r dechrau i gymryd lle pwyllgorau statudol a sicrhau na fyddai bwlch ar ôl diddymu'r pwyllgorau presennol. Er bod modd symleiddio'r trefniadau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'n bwysig cadw eu cyfraniad hanfodol.

Pwysleisiodd nifer mawr o ymatebwyr fod angen cynnal y perthnasoedd gweithio da presennol yn ystod y cyfnod pontio.

## Themâu cyffredin

*Dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid*

Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r dull mwy hyblyg o gymryd lle pwyllgorau statudol. Roedd Pwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd, Ecoleg a Hamdden presennol Asiantaeth yr Amgylchedd yn cydnabod nad oedd strwythur y pwyllgor hwn yn addas i'w ddiben bellach. Fodd bynnag, roedd angen cael trefniant amgen. Er hynny, nid oedd rhai ymatebwyr o blaid dileu'r pwyllgorau statudol gan eu bod yn teimlo y gellid colli mewnbwn.

Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i'r cynnig i sefydlu pwyllgorau lleol. Barnwyd bod hyn yn ddull newydd a diddorol o weithredu. Fodd bynnag, gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o wybodaeth am hyn.

Yn yr ymateb gan y Pwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd, Ecoleg a Hamdden disgrifiwyd dull gweithredu a oedd yn cynnwys pwyllgorau i Gymru gyfan a phwyllgorau lleol.

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen i'r corff newydd ymgynghori â chyrff eraill er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig ynghylch sut y bydd swyddogaethau'r corff yn cael eu cyflawni gan asiantaethau eraill, ar lefel leol a chenedlaethol.  Mynegwyd y farn y dylai cynlluniau grant barhau i hybu mentrau amgylcheddol.

Cafwyd awgrymiadau am ffyrdd o gynnwys gwahanol sectorau. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol gan y sector pysgodfeydd i'r cynnig ynghylch Grwpiau Cynghori Pysgodfeydd Lleol.  Dylai'r corff newydd gynnal cysylltiadau â Grwpiau Pysgodfeydd Lleol ac ymgynghori â nhw, a sefydlu/galluogi grŵp Rhanddeiliaid Pysgodfeydd Mewndirol i ganolbwyntio ar strategaethau ar gyfer pysgodfeydd.

Awgrym pellach oedd y dylid defnyddio grwpiau cynghori ffurfiol fel y Fforwm Cynghori ar Dirweddau.

Roedd yn rhaid ystyried sut y bydd y sector coedwigaeth yn cymryd rhan os bydd y dulliau presennol yn newid.

Mynegwyd pryder gan rai ymatebwyr ynghylch y diffyg manylion am rôl Cyrff Anllywodraethol, elusennau a'r sector gwirfoddol. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen sicrhau bod mewnbynnau cymdeithasol a chymunedol yn digwydd o hyd.  Ni ddylid lleihau'r cymorth ariannol i grwpiau lleol.

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod mewnbwn lleol yn hanfodol ac y dylid hyrwyddo cynrychiolaeth leol ar y prif fwrdd.

Teimlwyd y dylai'r corff fod â swyddogaeth addysgol hefyd a fyddai o gymorth i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o faterion amgylcheddol lleol ac yn hybu rhaglenni eraill sy'n ymwneud ag addysg amgylcheddol awyr agored.

Nododd nifer o ymatebwyr mai ychydig o gyfle yr oedd rhai rhanddeiliaid wedi'i gael i gyfrannu i'r broses hyd yma.  Teimlwyd y bydd y dull o weithredu a rhoi gwybod am y newidiadau yn hollbwysig yn ystod y broses newid. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ymgynghori pellach er mwyn rhoi mwy o wybodaeth, a gwybodaeth well, i randdeiliaid am y corff newydd. Un awgrym oedd y dylid ymgynghori ar frand y corff newydd i sicrhau bod yr enw a chynllun y logo o ansawdd uchel.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Mynegwyd y farn y dylai penderfyniadau fod yn dryloyw ac yn agored i gymunedau.  Roedd angen craffu annibynnol ac atebolrwydd clir.
- Mae angen cael enw mor fuan â phosibl, yn lle'r term 'un corff', sy'n adlewyrchu pwrpas y corff ac sy'n ystyrlon i randdeiliaid.
- Dylai gwybodaeth i randdeiliaid fod yn glir, yn gryno a heb jargon.

- Awgrymwyd llunio Siarter Cydgysylltu â Rhanddeiliaid i egluro’r ffordd o ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Dylai defnyddwyr gael mynediad uniongyrchol i’r corff newydd.
- Dylid cydgysylltu’n agos â datblygwyr ac ymgynghorwyr wrth baratoi ceisiadau cynllunio etc.
- Mae angen cynnwys pobl ifanc.
- Roedd angen i’r corff newydd ystyried cyfleoedd i ddefnyddio technolegau newydd i estyn at grwpiau demograffig gwahanol.
- Efallai y bydd angen partneriaethau rhanbarthol i gydgysylltu polisi a chamau gweithredu.
- Pryder y bydd dileu trefniadau’r pwyllgorau statudol yn gam yn ôl.
- Dywedodd rhai ymatebwyr fod gormod o bwyslais ar ‘adnoddau naturiol’ yn hytrach na’r ‘amgylchedd’, gan greu pryder y bydd diogelu’r amgylchedd yn dod yn ystyriaeth eilaidd.
- Roedd pryder bod llai o le i ddaeareg a ffactorau geoffisegol ac felly bod posibilrwydd na fyddai gwybodaeth gyflawn gan y corff newydd am agweddau allweddol ar yr amgylchedd naturiol.
- Mae angen i weithdrefnau a mecanweithiau ar gyfer rhoi grantiau fod yn glir.
- Rhaid peidio â newid trefniadau ar gyfer ymateb a chydgysylltu mewn argyfwng.
- Dylid rhoi swyddogaeth i’r corff newydd ar gyfer cydgysylltu ag asiantaethau gorfodi’r gyfraith er mwyn gwrthsefyll troseddau amgylcheddol.
- Dylai’r corff newydd wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg gyfathrebu i ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Barnwyd hefyd fod diffyg eglurder ynghylch y cyfle i gyrff y trydydd sector helpu’r corff newydd i gyflawni ei swyddogaethau.
- Bydd yn hollbwysig ymgynghori ag adrannau eraill, yn enwedig yr Adran Busnes a’r Adran Materion Gwledig, os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch ei datganiad bod Cymru’n agored i fusnes.

**Cwestiwn 11: Beth yw eich barn ar yr agweddau hyn ar y trefniadau rheoleiddio?**

## Trosolwg

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a gynigiodd sylwadau am y cwestiwn hwn un ai'n cefnogi'r dull o weithredu a gynigiwyd neu'n fodlon arno. Cafwyd rhai awgrymiadau am ffyrdd o wella neu hyrwyddo'r trefniadau ac mae'r rhain wedi'u disgrifio'n fanwl yn y sylwadau isod. Roedd tua 20% o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r dull gweithredu, neu rannau sylweddol ohono.

Roedd nifer o ymatebwyr yn ategu'r angen i symleiddio systemau rheoleiddio, er bod pryderon gan rai na ddylid caniatáu i hyn effeithio ar waith i ddiogelu'r amgylchedd. Ymhlith y manteision yr oedd llai o fiwrocratiaeth ac arbedion i'r corff ac i eraill fel diwydiant neu lywodraeth leol.

Roedd nifer o ymatebwyr – bron pawb a wnaeth sylw am y mater hwn – yn credu ei bod yn bwysig bod y corff yn annibynnol ar y broses wleidyddol.

Cafwyd cefnogaeth eang i'r angen am dryloywder mewn prosesau penderfynu. (Roedd rhai o blaid mwy o dryloywder, gan gynnwys cyhoeddi dogfennau ategol.)

Codwyd y paragraff isod o'r ymgynghoriad i'w ddyfynnu a'i ategu gan nifer o ymatebwyr. Cafwyd cefnogaeth eang i'r egwyddorion mewn ymatebion eraill:

> *'Yn ein barn ni, y prif faterion yw y dylai penderfyniadau rheoleiddio effeithiol fod yn annibynnol ar y prosesau gwleidyddol a bod gan benderfyniadau resymeg gyfreithlon a thryloyw sy'n cydbwyso'r holl fuddiannau perthnasol ac, wrth wneud hynny, yn diogelu'r amgylchedd'*

Mae'r prif bwyntiau a godwyd wedi'u nodi isod, mewn cysylltiad â'r prif elfennau yn y cynnig yn yr ymgynghoriad.

## Themâu cyffredin

*Hunandrwyddedu*

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn fodlon ar y dull gweithredu hwn. Gwnaeth nifer ohonynt ailddatgan yr egwyddorion sydd yn yr ymgynghoriad, gan bwysleisio'r angen i wahanu'r swyddogaethau rheoleiddio oddi wrth y swyddogaethau cyflawni lle'r oedd y corff yn trwyddedu ei weithgareddau ei hun. Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig i sicrhau bod y broses yn dryloyw. Roedd nifer o ymatebwyr o blaid y dull gweithredu hwn ar yr amod ei fod yn unol â chyfraith Ewropeaidd a chyfraith y DU.

Dywedodd nifer o ymatebwyr mai canlyniad pwysig i hyn fyddai cadw ymddiriedaeth y cyhoedd.

Cafwyd nifer o awgrymiadau penodol am welliannau ar sail y cynigion presennol:

- Codau ymarfer/prosesau wedi'u geirio'n glir.
- Archwiliadau/adolygiadau rheolaidd a threfniadau arolygu.
- Cefnogaeth i ddiwylliant 'chwythu'r chwiban'.
- Mwy o dryloywder. Cafwyd awgrym gan un ymatebydd am greu 'bwrdd bwletinau' electronig i roi gwybod i'r cyhoedd am benderfyniadau, gan gynnwys polisïau.
- Awgrymwyd hefyd y dylid cael cyfle i Weinidogion 'alw trwyddedau i mewn' yn rhan o'r broses.
- Dylid adnabod achosion posibl o wrthdaro buddiannau a rhoi sylw iddynt ar unwaith er mwyn osgoi problemau gweithredol.
- Dylid ymestyn y trefniadau hunandrwyddedu i gynnwys coedwigaeth y sector preifat lle y gellid dangos drwy gynlluniau achredu fod y gweithredwr yn cymhwyso'r arferion gorau.
- Dylid defnyddio trefniadau hunandrwyddedu yn y sector preifat gyda hapwiriadau.

Roedd gan ymatebwyr eraill bryderon mwy sylweddol ynghylch hunandrwyddedu a oedd wedi'u seilio ar wrthwynebiad i egwyddor hunangydsyniad. Ymhlith y pwyntiau a wnaethpwyd yr oedd:

- Dylai tîm newydd yn Llywodraeth Cymru benderfynu ynghylch trwyddedau.
- Gwneir penderfyniadau am hunandrwyddedu yn fewnol heb fawr o weithredu agored neu eglurder.
- Dylai Llywodraeth Cymru fod yn awdurdod cymwys lle y gallai cynlluniau effeithio ar safleoedd Ewropeaidd.
- Dylid trosglwyddo swyddogaeth rheoleiddio Comisiwn Coedwigaeth Cymru ond nid gweddill y swyddogaethau.
- Gallai graddfa bosibl yr hunanreoleiddio fod yn fwy na'r hyn a nodwyd yn yr ymgynghoriad.
- Nid yw gwrthod trwydded ddwywaith yn brawf bod y problemau'n fach mewn gwirionedd.
- Roedd angen mwy o wybodaeth am y ffordd y byddai'r corff yn delio â'r mater hwn.

*Y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (cynlluniau a phrosiectau wedi'u hyrwyddo gan y corff ei hun)*

Nifer bach o ymatebwyr a fynegodd bryderon ynghylch y cynigion i wahanu cyngor ar gyfer Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer cynlluniau neu raglenni sy'n cael eu cyflawni gan y corff ei hun.

Er hynny, roedd nifer o ymatebwyr wedi mynegi pryderon neu wedi cynnig awgrymiadau penodol ar gyfer gwella. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Mae'n bosibl y bydd gofyniad cyfreithiol i ymestyn yr egwyddor hon i gynnwys Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol.
- Dylid trafod hyn â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.
- Nid oes adnodd penodedig yn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar gyfer prosesau asesu statudol (Asesiadau Amgylcheddol Strategol, Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol) a dylid manteisio ar y cyfle i ddelio â'r diffyg hwn.
- Dylid cynnal asesiadau dirymu os cyflwynir cynigion i resymoli neu symleiddio prosesau rheoleiddio er mwyn sicrhau na chollir manteision a mesurau diogelu'r polisïau presennol.
- Byddai gorddibyniaeth ar hunanasesu'n gallu arwain at golli dulliau agored a thryloyw o weithredu, a diystyru pryderon ynghylch cadwraeth a'r amgylchedd o ganlyniad. Mae'n bosibl na fydd hyn yn gyson â'r gofynion perthnasol yn y prosesau hynny am gyfranogiad cyhoeddus a diogelu'r amgylchedd.
- Rhaid peidio ag ystyried yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ymarferiadau 'blychau ticio' ond yn hytrach yn offer a ddylai gyfrannu at benderfyniadau cynaliadwy; dylid seilio penderfyniadau ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

*Cyngor ar gadwraeth lle mae'r corff yn rheoleiddio eraill*

Roedd nifer o ymatebwyr yn gefnogol i'r dull gweithredu ac yn ailbwysleisio'r pwysigrwydd o sicrhau bod penderfyniadau'r corff, a mewnbynnau i benderfyniadau gan asiantaethau eraill, yn dryloyw, yn wrthrychol ac wedi'u seilio ar dystiolaeth er mwyn cadw ymddiriedaeth y cyhoedd. Mynegwyd pryderon gan nifer o ymatebwyr. Y prif bwyntiau oedd:

- Roedd cytundeb y byddai cyhoeddi dogfennau penderfyniad yn gam cadarnhaol. Ni ddylid cynnal prosesau asesu y tu ôl i ddrysau caeedig. Dylid adolygu barnau gwahanol – rhai cyfreithiol neu dechnegol – a dylid ymgynghori â'r cyhoedd ar newidiadau sylweddol yn y dull gweithredu.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r cynnig i gydleoli gweithwyr proffesiynol ond roedd rhai ymatebwyr yn dadlau hefyd y dylid gwahanu swyddogaethau cynghori a phenderfyniadau ar reoleiddio.
- Credai rhai ymatebwyr fod angen mwy o wybodaeth am oblygiadau cydleoli i staff.
- Cyfeiriodd amryw o ymatebwyr at werth ymgysylltu lleol wrth wneud penderfyniadau.
- Wrth wneud penderfyniadau, dylid chwilio am ateb lle mae pawb ar ei ennill, nid am gyfaddawd, gan integreiddio buddiannau yn hytrach na'u cydbwyso.
- Rhaid i'r corff gael swyddogaeth glir ac adnoddau digonol i ddarparu cyngor am safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd.
- Dylid cywiro'r cyfeiriad at 'safleoedd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd', a rhoi Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd Ramsar yn ei le.
- Colli'r rhwystrau a gwrthbwysau sy'n rhan o'r system bresennol.

- Nodwyd bod y tri chorff yn edrych ar yr agenda o wahanol safbwyntiau, felly roedd perygl, o gael un corff, y byddai'r drafodaeth yn wannach os bydd gwahanol safbwyntiau yn mynd o'r golwg. Dylid rhoi sylw i hyn drwy ystyried y gwrthdaro rhwng swyddogaethau rheoleiddio a chynghori mewn modd tryloyw.

*Apeliadau*

Dylid cael system deg a democrataidd briodol ar gyfer apeliadau. Hyd yn hyn nid yw'r gweithdrefnau wedi ennyn hyder mewn gwrthwynebwyr. Awgrymwyd sefydlu paneli annibynnol i wrando apeliadau a gwrthwynebiadau, yn enwedig mewn cysylltiad â dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

**Pwyntiau pellach a godwyd**

- Rhaid i'r corff gael dyletswydd statudol, gallu ac arbenigedd i ddarparu cyngor ar sail tystiolaeth i Lywodraeth (pob adran) a chyrff cyhoeddus eraill ynghylch polisi ac achosion penodol, pan gaiff gais i wneud hynny a hefyd os yw'n teimlo bod hynny'n briodol.
- Rhaid i'r corff gadw'r swyddogaeth o osod amodau ar drwyddedau i liniaru neu gydbwyso effeithiau.
- Dylid delio â phenderfyniadau a phrosesau mewn modd cyson. Os yw'r safonau amgylcheddol a ddefnyddir gan y cyrff ar hyn o bryd yn wahanol, dylid mabwysiadu'r safon uchaf.
- Dylid seilio penderfyniadau wrth reoleiddio ar y farn am risg nid yr egwyddor ragofalus. Ar y llaw arall, credai rhai ymatebwyr y dylid cadw'r egwyddor ragofalus.
- Dylid cael rôl statudol a chyfrifoldeb mewn cysylltiad â'r Cynllun Rheoli Adnoddau Cenedlaethol.
- Dylai cynlluniau dylunio coedwig gael eu troi'n gynlluniau rheoli ehangach.
- Perygl y byddai gwneud penderfyniadau'n fewnol yn lleihau tryloywder.
- Y ffordd orau o reoleiddio yw drwy dimau lleol gan fod trefniadau rheoleiddio canoledig yn gallu mynd o chwith. Gwell cyflawni camau gorfodi drwy dîm canolog arbenigol sy'n cydweithio ag arbenigwyr lleol.
- Mae angen i'r corff weithredu o fewn fframwaith cyfreithiol yr UE.
- Mynegwyd y farn bod rhai arferion rheoleiddio'n anghywir, yn bendrwm ac yn ddiangen, felly mae lle i'w gwella.
- Cafwyd awgrym y dylid adolygu'r trefniadau trwyddedu ar gyfer Rhywogaethau Ewropeaidd a Warchodir.
- Ynghylch cyngor ar gadwraeth, roedd angen penderfynu'n fuan ar y trefniadau ymghynghori ar gynigion datblygu ac ymholiadau cyn ymgeisio.
- Roedd angen monitro a gorfodi cydymffurfiaeth yn well, yn ogystal â symleiddio'r trefniadau rheoleiddio.
- Pan fydd angen gwneud penderfyniadau anodd ar reoleiddio i ddiogelu'r amgylchedd – e.e. gohirio neu atal datblygu – dylent gael cefnogaeth Bwrdd y corff a gwleidyddion.

- Roedd un ymatebydd nad oedd o blaid symleiddio deddfwriaeth a chredai fod angen mwy o orfodaeth.
- Mae cydymffurfio a monitro amgylcheddol yn rhan hanfodol o'r system.
- Dylem ddysgu gwersi o'r arferion da a drwg a geir ar hyn o bryd a gwneud penderfyniadau ar sail yr amgylchedd a chanlyniadau, nid yr hyn sy'n hwylus i'r ymgeisydd.
- Dylid adolygu trefniadau'n rheolaidd a chynnal rhai archwiliadau annibynnol.
- Roedd angen cael mwy o eglurhad am y trefniadau trwyddedu a datblygu cytundebau ffurfiol ar gyfer materion trawsffiniol. Roedd angen ystyried effeithiau trawsffiniol wrth wneud penderfyniadau ar drwyddedu.

**Cwestiwn 12: Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w cofnodi.**

Tynnodd ymatebwyr sylw at amrywiaeth o faterion o dan y cwestiwn hwn, gan gynnwys y canlynol:

*Materion staffio*

- Prin iawn yw'r sôn yn y ddogfen ymgynghori am yr effaith ar staff. Mae staff yn rhanddeiliaid o bwys a dylid cydnabod hynny.
- Gallai staff yn y tri chorff presennol brofi straen a morâl isel a dylid rhoi sylw i hyn.
- Er bod yr ymgynghoriad yn cydnabod y dylai egwyddorion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 fod yn gymwys i staff sy'n trosglwyddo i'r corff, dylid ategu hyn drwy wneud Gorchymyn Cynllun Trosglwyddo Staff.
- Pryderon ynghylch cysoni telerau, amodau a thâl a graddfeydd. Nid yw hyn yn digwydd yng nghyd-destun Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981.
- Bydd hyfforddi/ailsgilio'n hanfodol. Dylid cynnwys hyn mewn cynllun gweithlu a ddylai fod yn destun ymgynghori â'r Undebau Llafur.
- Dylai'r corff fod yn ymwybodol o'r goblygiadau i iechyd a diogelwch o ddisgwyl i staff gyflawni gwaith nad ydynt wedi'u hyfforddi i'w wneud.
- Nid oes sôn am y modd y cedwir y staff mwyaf cynhyrchiol ac effeithlon a sut y bydd perfformwyr gwael yn cael eu symud.
- Dylid rhoi'r un pwys ar y gofyniad am sgiliau cyfathrebu ag ar y gofyniad am arbenigedd gwyddonol, technegol neu reoli.
- Pryder ynghylch y ffaith bod y tri chorff yn delio'n wahanol ag aelodaeth staff o gyrff proffesiynol, gan mai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yw'r unig gorff sy'n noddi aelodaeth drwy dalu tanysgrifiadau staff i gorff proffesiynol amgylcheddol cydnabyddedig. Dylid parhau â'r ddarpariaeth hon i staff.

*Yr Iaith Gymraeg*

- Dylid rhoi pwyslais ar sicrhau defnydd cyfartal a thrwyadl o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar gyfathrebu mewnol ac allanol.
- Dylid cael dogfennaeth a chanllawiau digonol i staff sy'n delio â'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg.

*Gwasanaethau arbenigol*

- Dylai Cymru barhau i fanteisio ar swyddogaethau canolog Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, e.e. y Ganolfan Symud Pysgod Byw, yr Uned Bridio Pysgod Bras Genedlaethol, y Ganolfan Trwyddedau Pysgota â Gwialen Genedlaethol a'r Labordy Gwyddonol. Mae angen rhoi sicrwydd y bydd y corff yn gwneud trefniadau i gael cyngor arbenigol nad yw ar gael yng Nghymru am faterion amgylcheddol ac argyfyngau.

- Nid oes dim i ddangos o ble y bydd y corff yn cael ei wasanaethau labordy. Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai'r corff newydd gael ei wasanaeth labordy ei hun yng Nghymru ac y dylid defnyddio'r labordy presennol yn Llanelli. Dylid gwneud penderfyniadau yng Nghymru ynghylch sefydlu'r labordy newydd.

*Byrddau Draenio Mewnol*

- Cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr am y cynnig i gynnwys y tri Bwrdd Draenio Mewnol yn y corff newydd. Roedd gwahaniaeth barn am hyn ond, at ei gilydd, roedd y rheini a wnaeth sylw am y mater hwn yn gefnogol i'r cynnig.

*Materion eraill*

- Ni ddylai'r corff benderfynu ymlaen llaw ynghylch pa fathau o ddatblygu sy'n gynaliadwy neu beidio. Ni ddylai weithredu mewn modd sy'n cyfyngu'n afresymol ar ddatblygu neu a allai fod yn niweidiol i economi Cymru neu'r DU.
- Dylai fod yn ofynnol i'r corff sicrhau bod ei weithrediadau'n gynaliadwy.
- Mae'r diwydiant glo'n bwysig ac ni ddylid gosod rhwystrau diangen neu amhriodol o'i flaen.
- Pryder bod sefydlu'r corff yn arwydd o fwy o ganoli ar rym. Dylid cael mwy o benderfynu mewn swyddfeydd ardal lleol.
- Nid yw'n glir beth y mae adnoddau naturiol yn ei gynnwys a sut y gellir rheoleiddio neu ddylanwadu ar y rheolaeth arnynt mewn rhannau helaeth o Gymru, gan gynnwys tir amaethyddol a'r môr.
- Dylid dadansoddi'r prosesau presennol ar gyfer cydsynio a gorfodi cyn gwneud penderfyniadau.
- Rhaid ystyried pwy a fyddai'n gyfrifol am fonitro cynnydd ar Coetiroedd i Gymru.
- Dylid rhoi sylw penodol i'r materion cymhleth a chydgysylltiedig sy'n ymwneud â mwynau/glo wrth i'r corff ddatblygu.
- Rhaid i'r corff roi sylw dyladwy i'r ddeddfwriaeth forol ddiweddar a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.
- Mae sefydlu'r corff newydd yn gyfle i sicrhau proses fwy effeithlon a fyddai'n lleihau costau ac yn cymryd llai o amser.
- Dylai'r corff gael mwy o ddylanwad wrth helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaethau rheoli defnydd tir yn y dyfodol a chymryd rhan wrth eu datblygu.
- Mae angen parhau â chymorth ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Phartneriaethau Bioamrywiaeth Cymru.
- Nid oes cyfeiriadau at dir fel adnodd naturiol sylfaenol nac at gynllunio defnydd tir a phenderfynu a chydsynio ynghylch defnydd tir.
- Mae anghysonderau rhwng yr ymgynghoriad hwn a'r ymgynghoriad ar Cynnal Cymru Fyw.
- Mae rhai risgiau ariannol gan gynnwys y canlyniad anfwriadol o ddechrau chwalu Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr; mae rhagdybiaeth y byddai Cymru'n dal i elwa o ymchwil coedwigoedd sydd wedi'i hariannu gan Loegr

a rhagdybiaeth bod Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr yn gallu cynnal swyddogaethau cefn swyddfa yn ystod y cyfnod pontio.

- Nid yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal eto a gallai pobl mewn grwpiau sy'n fwy agored i niwed fod o dan anfantais annheg o ganlyniad i sefydlu'r corff.
- Dylai'r corff gymryd camau i ledaenu'r arferion gorau.
- Mae busnesau hamdden awyr agored am gael eglurder a mynediad cynaliadwy.
- Dylai'r corff ddatblygu dull effeithiol o gydweithio ag asiantaethau, gan gynnwys DEFRA, er mwyn cynnal prosiectau cadwraeth trawsffiniol ar y cyd â Lloegr.
- Bydd yn bwysig sicrhau sefyllfa gyfartal ag Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr i ddibenion rheoleiddio economaidd fel y gellir cymharu perfformiad â chyrff cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU mewn ffordd sy'n deg ac wedi'i seilio ar safonau cyson e.e. y diwydiant dŵr.
- Sicrhau bod amserlen bendant ar gyfer symleiddio trefniadau rheoleiddio amgylcheddol. Mae penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth yn fwy argyhoeddiadol yng ngolwg diwydiannau a reoleiddir na dull gweithredu rhy ragofalus, ac mae'n bosibl na fydd hynny'n sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru.
- Rydym am weld sefydliad sy'n gryfach ac yn fwy effeithlon a modern na'r un sydd gennym yn awr.
- Mae cyfle ar gael drwy gymorth grant Awdurdodau Lleol i resymoli cynlluniau a chydgysylltu gweithdrefnau cyllid grant drwy reoli prosesau contract ar gyfer gwaith a gyflawnir gydag Awdurdodau Lleol ac o fewn y sir.
- Pryder ynghylch y modd y bydd y corff yn cynorthwyo cymunedau a'r trydydd sector, yn enwedig wrth sefydlu'r corff newydd.
- Mae hyn yn rhoi cyfle i gyfuno systemau a chipio a darparu gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru mewn ffyrdd newydd.
- Dylid cynnig lesoedd hir i gymunedau i reoli coedwigoedd lleol er mwyn creu cyfleoedd mewn economïau lleol.
- Dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Asiantaeth yr Amgylchedd i'r corff newydd, gan wneud hynny'n amlwg.

## 5. Y camau nesaf

Wrth ddarparu'r ddogfen grynodeb hon, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ddefnyddiol o hyd o ran helpu i lunio gweledigaeth, gwerthoedd a ffyrdd o weithio'r corff newydd.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfrannu hefyd at waith sy'n mynd ymlaen ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â'r gwaith manwl o ddrafftio'r gorchmynion i sefydlu'r corff a throsglwyddo swyddogaethau iddo.

Yn ogystal â'r crynodeb hwn o'r ymgynghoriad, mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, heblaw am fanylion yr ymatebwyr hynny sydd wedi gofyn am drin eu sylwadau'n gyfrinachol.

# Atodiad A: Rhestr o'r cyrff a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Afonydd Cymru
ALGAO Cymru
Andrew Bronwin a'i Gwmni Cyf
ARC Woodlands Cyf
Associated British Ports
Cymdeithas Gwybodaeth Ddaearyddol Cymru
Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Grwpiau RIGS Cymru
BASC
Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain
Cyngor Mynydda Prydain
Cymdeithas Porthladdoedd Prydain a Grŵp Porthladdoedd Mwyaf y DU
Dyfrffyrdd Prydain
BSW Timber
Yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Ymgyrch Amddiffyn Pysgodfeydd Cymru
Canŵ Cymru
Yr Uwch Ranbarth Twristiaeth
Prifysgol Caerdydd (2 ymateb)
Cyngor Sir Caerfyrddin
CBI Cymru
Cymdeithas Bysgota Cefni
Celtic Energy Cyf
Grŵp Llwybrau Ceffylau Ceredigion
Cyngor Sir Ceredigion
CITB-Sgiliau Adeiladu Cymru
Dinas a Sir Abertawe
Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys
AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Coed Cadw
Coed Cymru Cyf
Cofnod – Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
Cydffederasiwn Cynhyrchwyr Glo y DU
Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Y Gynghrair Cefn Gwlad
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Clwb Pysgota'r Bont-faen a'r Cylch
Cymdeithas Bysgota Crucywel a'r Cylch
Cymdeithas Bysgota Cross Hands a'r Cylch
Cymdeithas Eryri Snowdonia Society
Cymdeithas Pysgota Tregaron Angling Association

Deer Initiative Cyf
Clwb Pysgota Dinbych a  Chlwyd
Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Comisiwn Dylunio Cymru
Ystad Dingestow Court, Sir Fynwy
DLP Planning Cyf
Cymdeithas Bysgota Dolgellau
Dŵr Cymru (Welsh Water)
Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed
E.ON
Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth Dwyrain Cymru (SEWBReC)
Energy UK
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Grŵp Amgylchedd Ardal y De-orllewin Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Pwyllgor Ymgynghorol Diogelu'r Amgylchedd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Systems Cyf
Esgair Forest
ETC Sawmills Cyf
Swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd yng Nghymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Ffederasiwn Clybiau Pysgota Clwyd
Federation of Welsh Angling (Angling Cymru)
Federation of Welsh Anglers
Pwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd, Ecoleg a Hamdden Cymru
Cyngor Astudiaethau Maes
Cyngor Sir y Fflint
Undebau Llafur Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Undebau Llafur Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr
Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Fountains Forestry Cyf
Cyfeillion Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Geo Conservation UK
Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent Cyf
Fforwm Mynediad Lleol Morgannwg
Golygfa Gwydyr
Partneriaeth AHNE Gŵyr
Grŵp Llywio Gwobr y Faner Werdd Cymru
Clwb Pysgota Groe Park ac Irfon
Cymdeithas Bysgota Gwauncaegurwen
Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Horizon Nuclear Power
Hugh Wheeldon a'i Gwmni
IEEM
Sefydliad yr Archeolegwyr
Sefydliad Coedwigwyr Siartredig
Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru
IOL (Cymru) a WATO

Cyngor Sir Ynys Môn
James Davies Cyf
John Gordon a'i Fab
Cadwch Gymru'n Daclus
Kronospan Cyf
Kronospan Sawmilling Cyf
Landmarc Support Services Cyf
Sefydliad Tirwedd
Llais y Goedwig
Clwb Pysgota Llanbrynmair
Cymdeithas Bysgota Llandeilo Cyf
Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru
M G Harvesting Cyf
Maelor Forest Nurseries Cyf
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Marine Current Turbines Cyf
Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cyngor Sir Fynwy
Ysgol Goedwig Sir Drefaldwyn
Purfa Murco Aberdaugleddau
Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
National Grid
Parciau Cenedlaethol Cymru
Cynrychiolydd Cenedlaethol y Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
NATUR
Y Grŵp Amgylchedd Naturiol yng Nghyngor Caerdydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cymdeithas Bysgodfa New Dovey
NFU Cymru
Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-ddwyrain Cymru
Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWRIGS)
Cymdeithas Mannau Agored
Cyfranogaeth Cymru
PCS Wales
Cymdeithas Pysgotwyr Sir Benfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Fforwm Arfordir Sir Benfro
Cyngor Sir Benfro
Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro
Plantlife
Cymdeithas Bysgota Pontardawe ac Abertawe Cyf
Pontrilas Timber and Builders Merchants Cyf
Swyddfa Ystad Pontypool Park
Ystad Powys Castle
Powys Flora Conservation

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymdeithas Enweiriol Pwllheli a'r Cylch
Fforwm Mynediad Lleol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Partneriaeth Real World Learning Cymru
Cymdeithas Ynni Adnewyddadwy
Renewable UK
Cymdeithas Bysgota'r Rhyl a Llanelwy
Royal Yachting Association a Welsh Yachting Association
RSPB
RTPI Cymru
RWE npower
Cymdeithas Eogiaid a Brithyllod
Fforwm Geoamrywiaeth yr Alban
Scottish Power Renewables
Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr
Partneriaeth Aber Hafren
Partneriaeth AHNE Bryniau Swydd Amwythig
Cymdeithas Coedwigoedd Bach
Fforwm Mynediad Lleol Eryri
Grŵp Gwella Gwasanaethau Cefn Gwlad De Cymru
Sustrans Cymru
Ymddiriedolaeth Afonydd Teifi
Teifi Timber Products Cyf (2 ymateb)
Cymdeithas Brithyll Teifi
Pwyllgor Cenedlaethol Cymdeithas Ceffylau Prydain Cymru
Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin
Ystad y Goron
Canolfan yr Amgylchedd, Abertawe
Cyfeillion Gŵyr
Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru
Partneriaeth Fusnes Coedwig Cymru
Tidal Energy Cyf
Tir Coed
TL Thomas a'i Fab (2 ymateb)
Cymdeithas Bysgota Tregaron
Cymdeithas Cynhyrchion Coedwig y DU
UNISON Cymru Wales
UPM Tilhill
Upper Dee Angling
Grŵp Ecosystemau Trefol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Cyngor Bro Morgannwg
Valero Energy Cyf
Partneriaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd
Cymdeithas Twristiaeth Gweithgareddau Cymru (WATO)
Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru
Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Partneriaeth Tirweddau Cymru
WCVA

Welsh Ladies Angling Development
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Adaryddol Cymru
Cymdeithas Gwarchodaeth Afonydd Cymru
Cymdeithas Genweirwyr Eog a Brithyll Cymru
West Coast Energy
Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru
Grŵp Pysgodfeydd Lleol Gorllewin Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Tanwydd Pren Cymru
Panel Cynghori'r Strategaeth Goetiroedd
Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu a Grŵp Llywio Cymru Menter Addysg y Coed
WWF Cymru
Wye and Usk Foundation
Partneriaeth AHNE Dyffryn Gwy
YCSG/Carmarthenshire Forest Schools
YHA (Cymru a Lloegr)

Cafwyd ymateb i'r ymgynghoriad gan 8 corff pellach a ofynnodd am drin eu sylwadau'n gyfrinachol.

Cafwyd ymateb hefyd gan 80 o aelodau o'r cyhoedd.